Ag na ollwng Duw oth feddwl,
Ond bendithia e, am y cwbwl.

Pſalm 1. 2
Preg: 12. 1.
1 *Theſ:* 5. 18.

Na fwriada ddrwg oth galon,
I anrheithio dy gid-griſtion,
†Mwrddwr yw 'r fath feddwl gwaedlyd,
Gwachel rhagddo er dy fywyd.

Lev: 19. 17
1 *Ioan* 3. 15
† *Laddiad.*

Na thrachwanta wraig cymydog,
Ag na hoffa ei llygaid ſerchog,
Nâd ith feddwl redeg arni,
Cans godineb yw i hoffi.

Exod: 20. 17
Gen: 12. 17
Mat: 5. 28

Gwachel roi dy frud nath fwriad,
Ar anrheithio vn amddifad,
Trais a blin orthrymder yw.
I cyfriw fwriad o flaen Duw,

Zech: 7. 10
Exod: 22. 22
Deut: 27. 19
Dih: 23. 10, 11

Gwachel chwennych Aur nag arian,
Tai na thir, trwy dwyll a chogan,
Nid iw'r cyfriw chwant a bwriad,
Gar bron Duw, ddim llai na lledrad.

1 *Tim:* 6. 10
Exod: 20. 17
Preg: 5. 10

Rhwym

Rhwym dy feddwl nâd e'i wibian,
Ar oferedd mawr na bychan,
Deut: 11. 18 Nag ar ddim na ellech roddi,
‡ *Gifrif.* † Côunr am dano ddydd dy ddidri.

Mar: 7. 21 Cadw'th galon rhag drwg fwriad,
Zech: 8. 17 Fel y cedwi'th law rhag lledrad,
Rhuf: 2. 16 Mae 'n rhaid atteb yn cin gaethed,
Preg: 12. 14 Am ddrwg fwriad ar ddrwg weithred.

Dyled-ſwydd plant i rhieni.

OS plentyn wyt, rho wir anrhydedd,
Ith dâd, ith fam, trwy barch a mawredd;
Eph: 6. 2, 3 Duw ſy 'n erchi i hanrhydeddu,
Os grâs a hiroês a chwenychu.

Gwna 'r peth archo dy rieni,
Prâw ymhob peth i bodloni,
Trwy na cheiſiont gennyd bechu,
Gwna bob peth y fônt yn fynnu.

Dihar: 4. 1 Derbyn gyngor, derbyn gerydd,
Derbyn gosb dy dâd yn vfydd,
‡ *Ceryddu.* Derbyn ddyſc pan fo'n dy † ſhiaco,
Derbyn bôb athrawiaeth gantho.

Os dwl, os dall, os poeth, os lloerig,
Os anioddefgar, a dottiedig,
Y fydd dy dâd, ath ſam mewn henaint,
Goddeu ei gwendid, trwy ddioddefaint.

O bydd dy dâd, neu 'th fam mewn tlodi, 1 Tim: 5. 4
Ichennyd tithau fodd iw peri,
Maetha 'n dirion y ddau henddyn,
Fel y maeths'ont dithau 'n blentyn.

Dilin ſiampl y Ciconia,
Sy 'n porthi ei dâd, pan fo ef gwanna,
Yn cweirio ei nŷth, yn ei † adeino
Yn hên yn wann, heb allu cyffro. † Bwrw aden trosto.

Dilin arfer y Dolphiniad,
Sy 'n yorthi ei Tâd ai mam yn weiniad,
Gan ei cadw pan fônt gwanna,
Rhag ir Pyſcod mawr ei difa.

Gwradwydd mawr, i feibion dynion,
Fod yn waeth nar Adar gwylltion,
Gwaeth nar Pyſcod mewn caledi,
Wrth y rhai rows bywyd i'ni.

Od wyt wr mawr, o alwad vchel.
Ath dâd yn dlawdd, ai radd yn iſſel,
Rho barch ith dâd, er † cywch oth alwad, † Cyfuwch.
Anrhydedda 'th fam yn waſtad.

Er bôd Joſeph yn rheoli, Gen: 45. 9, 10, 11
Gwlad yr Aipht, ai dâd mewn tlodi,
Fe wnae Joſeph fawr anrhydedd,
Idd i dâd er maint oi waeledd.

Er bôd Solomon yn frenin, 1 Bren: 2, 19
Ar ei orſedd yn gyffredin,
Fe ddyſcennau oddiar ei orſedd,
I berchi fam a mawr anrhydedd.

Er

Er bôd Chriſt yn Dduw, yn ddyn,
Yn vwch na neb, yn well nag vn,
Luc: 2, 51 Fe barche'u fam, fe barche'u dadmaeth,
Fe fyddeu vfydd i hathrawiaeth.

Pet faet ti Duwc, nid llai dy ddyled,
I berchi 'th Dâd ath fam er tloted,
Ni rŷ'chelfraint rydddid it'ti,
Leuiy 'th ddyled ith rieni.

Mae 'th Dâd yn Dâd, pyt fae ef cobler,
A thitheu 'n fab pyt faet ti Squier,
Tra fech di 'n fâb, mae Duw 'n dy rwymo,
'Roi parch ith Dâd, pwy bynnag fytho.

Pan oeddyd wann heb fedru cwnnu,
Heb fwyd i gnoi, heb laeth i lwngcu,
Heb glwtt ith gylch, dy fam ath helpodd,
Pwy dâl a roiir hon ath fagodd.

Yn hir hi'th ddygodd dan ei gwregis,
Ai gwaed hi'th borthodd yno nawmis,
Ai llaeth hi'th olchodd oth holl frwntni,
Pwy dâl pwyth y wnai di iddi.

Yn glâf hi geiſiodd dy ddiddanu,
Lawer nôs, gan golli ei chyſcu,
Gan dy lwlan rhwng ei breichiau,
Pan baet ti, ar dorri 'n rhengau.

Rhô anrhydedd prudd gan hynny,
I th rieni am dy fagu,
Nâd wâll arnynt hyd dy farw,
Tro gwerth ceiniog yn dy helw.

Y parch, ar bri, ar bwyd, ar trwſſiad,
A roech ith dâd yn henwr ingrad,
Y ry dy fâb i'tithau'n henddyn,
Wrth vnion farn, cyn dêl dy derfyn.

Y garthen rawn y fu ar welu,
Dy dâd wrth orwedd, yn y beudu,
Y geidw'th fâb i tithau orwedd,
Ar y dowlod cin dy ddiwedd.

Y meſſur Cwtta r'hwn y roddech, *Lu.:6. 38.*
A roddir itti pan heneiddiech,
Yr wŷr y ddial medd y wlad,
Y meſſur bach y roeſtith dâd.

Bydd gan hynny hael a ſerchog,
Rhwydd, a thirion, a thrugarog,
Wrth dy dâd, ach tam mewn henaint,
Fel y caffech dithau'r cymmaint.

Na ddôs fel Eſau i Briodi, *Gen: 6 34.3*
Heb gael cennad dy rieni,
Odid i Dduw 'r ioed ſendithio,
R'faeth briodas wyllt, nai llwyddo.

Os anweddus yw'th rhieni,
Nid ôs it'ti moi amherchi,
Nai bychanu hyd ei diwedd,
Ond gweddio am wella ei buchedd.

Cham am watwar Noah ei dâd, *Gen:9:22, 25*
Drwm felldithiwyd yn ei hâd,
Ar felldith hon, s'eb fyned etto,
O grwyn y * Moores y ddaeth o hano: † *Pobl ddu o grwyn.*

Abſalon

2. Sam: 18. 9, 10. 14. Abſalon Dêg y fu anvfudd,
A thraws iw dâd, hen frenin Dafydd;
Cedynnau, Duw ai crogodd wrth ei † locſen,
Am ei drawſedd, wrth frig derwen.

Eph: 6. 2, 3 Parcha'th dâd, ath fam gan hynny,
Helpa'r ddau pan fo'nt yn ffaely,
Felly heſtyn Duw dy ddyddiau,
Yn y tir lle bo dy dreiglau.

Cyngor i lywodraethu 'r ymadrodd wrth fodd Duw.

Id dy eiriau yn waſtadol,
Yn griſtnogaidd ag yn raſſol,
Prov: 4: 6 Yn rhoi grâs ir holl wrandawyr,
Eph: 4. 29 Ag adeilad tra chymmeſſur.

Jhar: 21: 23 Y mae bywyd, y mae Angau,
Jhar: 18. 21 Yn y tafod yn y genau,
Jhar: 13. 3 Gwachel dwedyd geiriau diriaid;
Cadw d' enau, cedwi d' enaid.

1 Pet: 2. 22, 23 Dilin d' arglwydd yn dy eiriau,
Dywaid fel y dywede'yntau,
Ni ddaeth twyll na gair anweddaidd,
Erioed y maes, oi enau ſanctaidd.

c: 1. 19 Traetha 'n bwyllog, gwrando 'n eſcud,
har: 10. 19 Mae dwy gluſt, yn rafod gennyd,
. 17. 28 Am'l eiriau, bair gyfeiliorni,
Ni ddaeth drwg i neb o dewi.

Cyn

Cin dywedych, meddwl ennyd,
B'wedd y myn mâb Duw it ddywedyd,
Yno dywaid r' hyn ſydd raſſol,
A dai adail rhai an-neddfol.

Mat: 5. 37, 44
Col: 4. 6
1 Cor: 14. 26

Na ddoed ymadrodd brwnt oth enau,
Na gair ffol, na choeg ddigrifau,
Senn, na ffroſt, na ffrwmp, na chelwydd,
Ond bid raſſol dy lyferydd.

Eſh. 4. 29
Eſh 5 4
Eſh. 4 25

Cadw d'enau rhag gair diriaid,
Telly galli gadw d'enaid,
Oni ffrwyni dafod anwir,
Yn ôl d'eiriau, ith gondemnir.

Dihar. 4 24
Di ar 21. 3
Pſalm 39. 1
Mat. 12, 37

Arſer iaith ag * Aeg gwlad Canan,
Bid am Dduw ai air dy ymddiddan,
Wrth dy eiriau y cair gwybod,
O bwy wlad yr wyt yn hanſſod.

* Lleferydd.
Pſalm 145. 1,
Col. 3. 16
Iac. 1, 26

Nâd ith dafod arfer tyngu,
Cig a gwaed 'r Arglwydd Jeſu,
Rwyt ti'n * damſing gwaed y cymmod,
Pan arferych gyfriw bechod.

Mat. 5. 34
Iac. 5. 12
Heb. 10. 29
* Sathru.

Am air Duw nid oes it yngan,
Heb anrhydedd, parch, ag ofan,
Ag os cymeri ei enw 'n ofer,
Di âe yn euog pan ith farner.

Eſay 66. 2
Exod. 20. 7
Deut. 28. 58, 59

Dywaid beunydd leia ag allech,
Dywed yn raſſol pan y dywedech,
Oni ddywedi eiriau hyfryd,
Gwell it dewi a ſôn na dywedyd.

Iac. 1. 19
Dihar. 17. 27

: 19. 14 Gwachel fôd yn ddau dafodiog,
ar: 6. 16, Câs gan Dduw bôb dyn celwyddog,
Tâd y celwydd ydyw 'r Cythrel,
n: 8. 44
: 4. 25 Gwâs ir Diawl iwr ffalſt ei chwedel.

b: 8. 16, 19 Arſer draethu 'r gwir oth galon,
lm 101. 7 Hoff iw 'r gwir gan Dduw a dynion,
Ni chaiff dŷn celwyddog gredu,
Gair oi wir, pan bo 'n ei dyngu.

: 19. 16 Na chno vn dŷn llwyr ei gefen.
120. 3, 4 Ag na arfer gair drwg abſen,
64. 3 Gwaeth na chleddau llym dau-finiog,
lm 59. 7 Ydyw cnllib dŷn celwyddog.

ar: 4. 24 Na ddwg dafod drwg anhappus,
lm 140. 3 Gwaeth yw hwn na gwen wyn lindus,
lm 120. 3, 4 Gwaeth na marwor poeth yn lloſci,
Gwaeth na ſaethau vn or Cowri.

Er fy mendith na lyſſenwa,
t: 2. 1 Neb yn rhwyll, neu 'n ffoll, neu 'n rhaca,
. 5. 22 R'hwn a allwo ei frawd yn lletffol,
3. 6 Mae ê yn haeddu tan vffernol.

ar: 17. 27 Gwachel adrodd faint y glywech,
Gwachel ddwedyd faint y wypech,
Dywaid wir pan orffo ei draethu,
Nes bo rhaid, gwell weithiau i gelu.

t. 3. 8 Bydd ddeallgar pan ganmolech,
19. 17 Bydd gwrteiſol pan gyfarchech,
Bydd gariadus wrth geryddu,
Bydd drugarog wrth gyfrannu.

Gweddi

Gweldi am lwodraethu 'r geiriau, ar geneu wrth fodd Dnw.

ARglwydd agor fyng wefysſedd, *Pſalm 51. 15*
I folianu 'th Dduwiol fawredd,
A chyfrwydda di fyn hafod,
I ddatcanu maes dy fawr glod.

Llauw'ng enau, 'oth wir foliant, *Pſalm 40. 10*
Ith fendithio am fy llwyddiant,
Ath glodfori, dâd trugarog,
Yn y dyrfa fawr luoſog.

Llinia 'ng eiriau, lliwia 'n hafod, *Pſam 141. 3*
A chyfrwydda fy myfyrdod,
Clô, a * dat clo fy nwy wefys, * *Neu datcloi.*
Nâd fi draethu ond dy wllys.

Arglwydd cadw ddrws fyng eneu,
Nâd fi draethu ffiaidd eirieu,
Ffrwmp, na ſſroſt, na ſen na chabledd,
Geirieu ffol, na dim anwiredd,

Bid myfyrdod fy holl galon, *Pſalm 19. 1*
Bid fyng weithred, am amcanion,
Bid fyng eirieu oll yn ddiddrwg,
A chymeradwyy n dy olwg.

Cyngor i ddyn fob bob amser o ymddygiad Christnogaidd.

hil. 2. 15 BYd d'ymddygiad yn gristnogaidd,
Pet. 3. 8 Yn gwrteisol, ag yn griaidd,
Pe. 3 11 Ymhob tyrfa 'delych iddi,
Megis plentyn ir goleuni.

at. 5. 16 Bydd fel seren yn discleirio,
il. 3. 17 Bydd fel cannwyll yn goleuo,
Pet. 3. 16 Bydd fel patrwn o gristnogaeth,
Gwmpcini. Ir rhai ddelo * ith gwmpniaeth.

Pet. 1. 15 Bydd dra sanctaidd ir galluog,
ut. 16. 20 Bydd yn vnion ith gymydog,
Pet. 5. 8 Bydd yn sobor it dy hunan,
. 2. 12 Dyna 'r tri phwnc rheitia allen.

at. 10. 16 Bydd mor ddi-ddrwg ag yw 'r glomen
. 5. 15 Bydd mor gall ar sarph drachefen,
c 10. 3 Bydd ddioddesgar fal y ddasad,
t. 12. 30 Hôff gan Ghrist yw 'r fath ymddygiad.

n gymesurol. Bydd yn * demy'raidd megis Daniel,
h. 1. li, 12 Cadw 'r cnawd mewn Diett issel,
or. 9 27 Gwachel wîn a bwyd rhy foethus,
. 5. 18 Rhag dy fynd yn afreolus.

. 5. 19, 20

s. 4. 3, 4 Bydd yn ddiwair, nid yn anllad,
. 39. 7, 8, 9 Bydd fel Joseph yn d'ymddygiad,
r. 5. 21 Rwyt tiyngolwg Duw bob amser,
lm 18. 26 Bydd gan hynny lân a syber.

Dela

Delia 'n vnion wrth fargeinio,
Na thwyll vn dyn wrth farchnatta,
Duw ei hun fydd vnion farnwr,
Rhwng y gwirion plaen ar twyllwr.

Bydd o ffydd a chrefydd vnion,
Ofna Dduw o ddwfnder calon,
Na wna ddrwg o flaen ei lygad,
Ymhob mann, mae 'n diſgwyl arnad.

Dilin gyngor doeth bregethwyr,
Ymddaroſtwng ith Reolwyr,
Bydd gariadus ath gymdogion,
Ag heddychol a phob Chriſtion.

Bydd dra graſſol yn dy eiriau,
Bydd yn fedrus yn dy chwedlau,
Bydd yn gywyr yn dy * bromais,
Byad ym-hob peth, lân, a llednais.

Bydd di berffaith ymhob tyrfa,
Bydd fel ſant ymlhith y gwaetha,
Er diffeithed y fo 'r cwmpni,
Bydd fel Noah 'myſc y cowri.

Cyfarch pôb dŷn yn dra ſuriol,
Goſtwng ith well yn gwrteiſol,
Parcha 'r henaint ar Awdurdod,
A rho 'r blaen ith well yn waſtod.

Bydd ddioddefgar a chymmeſſur,
Na fydd boeth na thwym dy nattur,
Goddeu gamwedd cin cynhennu,
Y ddioddefo hwnnw orfu.

Deut: 25. 1
1 Theſſ: 4. 6

Tit: 2. 2
Deut: 6. 13
Eſay 1. 16
Libar: 15. 3

Dihar: 19. 2
Heb: 13. 17
1 Pet: 2.
Rhuſ: 12.

Col: 4. 6
Dihar. 13.
Pſalm 45. 4
* Addewid
1 Pet. 5. 5

Mat. 5. 48
Phil.
1 Pet. 2.
Gen. 6.

Rhuſ.
1 Pet.
1 Pet.
Rhuſ: 13.
Lev. 19.

Dihar.
Col. 3. 8
Dih.

Exod: 20. 12 Ymddaroſtwng ith oreuon,
1 Pet: 5. 5 Duw ei hun a wrthladd beilchion,
Matt 21. 9 Ag ſe ddyru râs yn yſtig,
Iac: 4. 10 Ir rhai vfydd goſtyngedig.

Dihar: 16. 5 Na falchia am vn rhinwedd,
Pſ: 75. 5, 6 Nag am gyfoeth ag anrhydedd,
1 Theſ: 5. 18 Ond rhô ddiolch prudd am danynt,
Iob 1. 21 Rhag i Dduw dy adel hebddynt.

Deut: 22. 11 Bydd di gryno yn dy ddillad,
1 Tim: 2. 9 Dôs yn lân yn ôl dy alwad,
Eſay 3. 16, 17 Torr dy bais, yn ôl dy bwer,
1 Pet: 3. 3 Na fydd goeg, na brwnt vn amſer.

Ephuſ: 6. 23 Gwachel bechu er ewmpniaeth,
Iac: 1. 15 Cyflog pechod yw marwolaeth,
Ezek: 18. 4 Cnifer gwaith y bech yn pechu,
Cnifer Angau wyt yn heddu.

Gen: 2. 17 Mae cyfathrach er y dechreu,
Ephuſ: 5. 12, 18 Rhwng pôb pechod brwnt ag Angeu,
Fal na ddichon vn dyn bechu,
Na bo Angeu yn ei lwngcu.

Iob: 4. 29 Na fydd anllad yn dy chwedleu,
Iob: 5. 11, 12 Na fydd aflan mewn corneleu,
Eſay 29. 15 Ym-hob cornel bid d'ymddygiad,
Fal pyt faet wrth groes y farchnad.

Ephar: 1. 10 Os cais dŷn, na Diawl, nag Angel,
Iob: 4. 10 Gennyd bechu yn y dirgel,
Cofia fôd Duw a faith llygad,
Ymohob mann yn diſgwyl arnad.

Er

Er nâd ydyw dŷn yn gweled, *Ier:* 16. 17.
Yn y dirgel lawer gweithred, *Ier:* 23. 23
Y mae Duw yn gweld y cwbwl,
Pan na bytho dŷn yn meddwl.

Os trosseddi yn y dirgel, *1 Cor:* 4. 5.
Duw ddatguddia dy holl * gwnsel, *Rhuf:* 2. 16.
Ag a fyneg 'dy ymddygiad, *2 Sam:* 12.
Ir bŷd yng wydd 'r haul a lleuad. * *Gynghor.*

Gwa chel ddilin ddrwg gwmpniaeth, *2 Thes:* 3. 6.
Pobol anwir ddigristnogaeth, *Psalm* 1. 1.
Os, fe * nyrdda r'hain d'ymddygiad, * *Gly-u w*
Fel y nyrdda r' pitch dy ddillad. *neu ddifwy*

Fal y hallta 'r môr y granffo,
Or dwr croew ddelo atto,
Felly nyrdda pobol scymmun,
Foesau 'r goreu ddelo attyn.

Gwachel neidir rag dy frathu, *Eph:* 5. 11
Gwachel Blâ rhag dy ddifethu, 13, 14
Ag o ceri Jechawdwriaeth,
Gwachel ddilin drwg gwmpniaeth,

Câr ath galon bôb dŷn duwiol, *Psalm* 10
Bydd gyfeillgar a rhinweddol, 6
Dilin arfer y rhai doethion, *Phil:* 3. 1
A ffieiddia 'r annuwolion.

Paratoad ir cymmun.

POb rhiw Griſtion ag y garo,
Ddyſcu 'r modd y mae ymgweirio,
Fynd yn lân i ford 'r Arglwydd,
Dyſced hyn o werſeu 'n ebrwydd.

Ar ruth.r. Cyn yr elych. * rhwp, ir Cymmun,
Yſtyr ble, yr wyt ti 'n rofyn,
A pha beth yr wyti ar ſeder,
Oderbyn. I * receſio yn y ſwpper.

Nid i ford rhyw Emprwr llidiog,
Ond i ford yr holl Alluog,
Rwyt ti 'n rofyn, mynd i fwyta,
Bwyd ſydd gan mil gwell na Manna.

n: 6.49, 50 Gwell na Manna os fel Criſtion,
or: 11, 29 Y derbyni hwn yn ffyddlon,
n 13, 27 Gwaeth na gwenwyn os trwy anras,
Y derbyni hwn fel Suddas.

Meddwl dithau am ei dderbyn,
Yn griſtnogaidd fel y perthyn,
Mewn ſancteiddrwydd, ffydd, a gobaith,
Glendid pur, a chariad perffaith.

Gwachel redeg yn amharod,
I ford Chriſt yn llawn o bechod,
Rhag it dderbyn barnedigaeth,
Llecaiff eraill Jechawdwriaeth.

Cofia

Cofia 'n † garcus, pwy ſancteiddrwydd,
Pwy ymgweirio, pwy parodrwydd,
Gynt o ſododd Duw ar dâſc,
Cin cae Iſrael fwyta 'r Paſc.

* *Gryno.* *Exod:* 12. 3, 15, 19

Cofia hefyd pwy ymolchi,
Pwy lanhau, a phwy ſyberwi,
Y wnaeth Chriſt ai ddwylo tyner,
Ar ei Saint, cyn * taſlo'i ſwpper.

Ioan: 13. 4, 5

* *Prof.*

O na ddere dithau 'n ſarnllyd,
Yn dy rwd, ath bechod drewllyd,
I ford Chriſt, heb lwyr ymolchi,
Oth holl feiau, ath holl fryntni.

Bwrw leſein pob rhyw bechod,
Llid, cynſigen, maliſ, medd-dod,
Rhyſig, falſſedd, ffwrdd oth calon,
Ni thrig Chriſt y man lle byddon.

1 *Cor:* 5 7.

Cofia fel yr * entrodd Satan,
Gynt yn Suddas fradwr aflan,
Yn âl iddo fwyta 'r tammaîd,
Yn ei bechod brwnt mor embaid.

* *Myned i-fe* *Ioan:* 13. 2

Gwachel ditheu rhag digwyddo,
Y fath beth yr eil waith etto,
Os ti ddoe i ford yr Arglwydd,
Yn d'aflendid heb barodrwydd.

Cofia ir Corinthiaid feirw,
A nychu 'n hîr, or gwres ar gwaew,
O waith mynd yn amharadol,
Llwyr ei pen ir Bwrdd ſancteiddiol.

1 *Cor:* 11. 3

Gwachel

Gwachel ditheu fynd yn rhwyſcus,
Ir ford hon heb ofan parchus,
1 Cor: 11. 29 Heb yſtiriad beth ſydd arni,
Rhag dy farw yn dy frwntni.

Hola dy hun, a myn wybod,
1 Cor: 11. 28 Wyt ti 'n difar am dy bechod,
Ag oes genyd ffydd, a gobaith,
Calon lan? a chariad perffaith.

1 Cor: 11. 31, 32 Barna dy hun yn ddiweniaeth,
Fel na farnô Duw di 'r eilwaith,
Ag lle gwelych ddim yn eiſieu,
Cais gan Ghriſt ei roi neu faddeu.

Pedwar peth angenrheidiol yn derbyniad y cymmun.

Pedwar peth ſydd angenrheidiol,
Ir rhai fynn cymmuno 'n ddeddfol,
(1) Ffydd griſtnogaidd, (2) gwir ddifeirwch,
(3) Cariad perffaith, (4) diolchgarwch.

Nid oes llûn bôd heb y lleia,
Or rhai hyn cyn mynd i fwyta.
Ar neb êl, ir ſwpper hebddyn.
Ni chaiff lês oddiwrth y cymmun.

Ffydd.

Fydd ſydd gynta 'n angenrheidiawl,
I gredu i Ghriſt roi hun 'n hollawl,
Ar y groes i farw droſſom,
Am y pechod ôll y wnaethom.

Ddioddefaint. Ioan: 1. 12

Ffydd ſy'n cyrraedd ffrwyth pardwn,
Y bwrcaſſodd Chriſt trwy * baſſiwn,
Ag yn derbyn ar y ſwpper,
Griſt ei hun ai holl gyfiawnder.

Nid

Nid iw Chriſt yn fwyd ir bola,
I gnoi a dant, ai roi ir cylla,
Bwyd iw Chriſt, i borthi 'r enaid, *Ioan: 6. 35*
Yn ysbrydol, trwy ffydd dambaid.

Ni all neb fwynhau 'n yſprydol,
Chriſt, ai waed, ai gorph ſancteiddiol,
Ond yn vnig trwy ffydd rymmus,
A ddel o galon edifarus,

Mae 'r Eſengil ini yn dangos, *1 Pet: 3. 22*
Fôd Chriſt yn y nêf, yn aros, *Act 3. 0,*
Ag na ddichon vn dŷn cnawdol, *Ioan 6. 63*
Fwyta Chriſt, ond yn ysbrydol.

Ffydd gan hynny ſydd angenrhaid,
I gyrraedd Chriſt i borthi 'r Enaid,
Ag i ddercha 'r galon atto,
O myn Enaid borthi arno.

Bwyd ir Enaid, bwyd ir galon,
Bwyd yw Chriſt ir meddwl ffyddlon,
Bwyd i gymryd trwy ffydd ſywiol,
Bwyd i fwyta yn ysbrydol.

Pan bo 'r corph yn cymryd bara,
Yn y Cymmun er ei goffa,
Cwyn dy galon, y pryd hynny,
A thrwy ffydd, mwynha Griſt Jeſu.

Neſſa at ffydd, rhaid edifeirwch, *2 Edifeirwch*
Am bôb pechod trwy ddyfalwch,
A llwyr fwriad gwella beunydd,
Troi at Dduw, mewn buchedd newydd.

Edifar a

Edifara o ddwfnder calon,
Am bob bai, trwy ddagrau heilltion,
Ag na ddere i ford yr Arglwydd,
Nes difaru, rhag cael trymgwydd.

Golch dy faril, carth dy waddod,
Na ddôd wîn mawn † Caſc o becbod,
Rhag ir gwîn mewn lleſter aflan,
Dorri 'r caſc a rhedeg allan.

Ni thrig Duw, nar Oen, nar glomen,
Lle bo pechod a chynſigen,
Golch gan hynny yn lân dy leſter,
O derby nni Grift nai ſwpper.

Chwd dy fedd-dod, clâdd dy fryntni,
Gâd dy faſwedd brwnt, ath wisgi,
Attal nwyfiant, ffrwyna nattur,
Gwella 'th fuchedd, na fydd ſegur.

Golch dy ddwylo mewn gwirioneb,
Golch dy feddwl, mewn duwioldeb,
Golch mewn cariad ben a chynffon,
Os derbynnis Grift ith galon.

Câr gyfiawnder, dilin ſobrwydd,
Arfer lendid a ſancteiddrwydd,
Gwiſc am danad gariad perffaith,
Nad vn bai dy nyrddo 'r eilwaith.

Nid oes rhoi i Gwn mor pethau ſanctaidd,
Nar gwerthſawr bearls ir moch angrhiaidd,
Nar Manna gwynn mewn halog grochan,
Na chymmun Chriſt mewn cylla aflan.

Mewn

Lleſter neu faril.

† *Cor. 5. 7, 8*

Cor. 7. 1

Sacramentum requirit Sacram entem.

Mat. 7. 6

Mewn Pott o aûr y dodir Manna, *Heb: 9. 4*
A chelain Griſt, mewn crus or meina, *Mat: 27. 59*
Ar gwîn or * Grâp mewn baril griaidd, ** Grawn.*
Ar Cymmun hwn mewn Calon ſanctaidd.

Y trydydd peth ſy'n rhaid ei geiſio, *2 Cariad.*
Yw cariad perffaith cyn * receſio, ** Neu dderbyn*
Heb ddwyn meddwl drwg at vn dyn,
Pell, nag agos, câr na gelyn.

Cariad ydyw 'r * arwms tirion, ** Nodau.*
Sydd gan Griſt ar * lifrau 'weithon, ** Wiſciadau.*
Ag wrth gariad yr adwaenir, *Iaan: 13. 35*
Ddefaid Chriſt oddiwrth y geifir. *Gal. 5. 22*

Nid iw Chriſt yn derbyn vn dyn,
I fwynhau ef yn y cymmun,
Ond yr hwn y ſo 'n ddiragraith,
A phob dŷn mewn cariad perffaith.

Pyr fae gennyd fil o ddoniau, *1 Cor. 13. 1, 2*
A bod cariad i tr 'n eiſiau,
Nid wyt deilwng byth i ddywad,
I ford Criſt heb berffaith gariad.

Câr gan hynny dy gymdogion, *Mat 5. 43.*
Madden 'n rhwydd ith holl elynion, *Mat: 5. 24*
Ag os gwnaethoſt gam ag vndyn,
Cymmoda, cyn bwyteuch y cymmun.

Gwachel ddywad yn ddigofus, *1 Cor. 5. 7.*
I ford Chriſt mewn llid a malis, *Ioan. 13. 27.*
Rhag i Satan fynd ith gylla,
Cida 'r tamaid gwedi ſwyta.

Dyſc

Dyſc di gan y neidir dorchog,
Chwdu maes dy wenwyn llidiog,
Cin dy fynd ir ford yn llawen,
Rhag ith falis lladd ei pherchen.

Y neidir fraith medd rhai ai gwalas,
'Fwrw ei gwenwyn ar y gamlas,
Cyn yr yfae ddwr or afon,
Rhag ir gwenwyn dorri ei chalon.

Bwrw dithau dy lîd allan,
Ath ddrwg feddwl, ath draws amcan,
Ath holl falis, ath genfigen,
Nafu. Rhag ir rhain * andwyo ei perchen.

Os bydd gennyd y tri ymma,
(1.) Ffydd, (2.) difeirweh, (3) cariad, coda,
Dereu ir cymmun, mae i ti groeſo,
Chriſt ei hun ſŷn d' alw atto.

fyrdod wrth yfro 'r cym- ai dder- Pan y gwelych dorri 'r bara,
A thywalltu 'r gwin or cwppa,
Cofia fel y torreû 'r wayw-ffon,
n: 19. 34 Gorph dy Ghriſt ar grogbren Creulon.

or: 10. 16 Pan dderbynniech o law 'r ffeiriad,
Fara a gwîn, yn ol cyſſegrad,
gid paras nem & ven- n: Derbyn Ghriſt trwy ffydd ith galon,
Portha d'Enaid arno 'n ffyddlon.

de & man- aſti. Nid a danedd y mae bwyta,
: 3. 17 Chriſt yn gnawdol, ai roi 'r bola,
lite parare ces ſed corda um. Ond trwy ffydd y mae 'n ysbrydol,
Fwyta Chriſt ar galon fywiol.

Côd

* Còd dy galon, dring ir nefoedd,
Edrych ar yr hwn ath brynodd,
Coña faint y wnaeth eferod,
Pan groeſhoeliwyd am dy bechod,

* *Cyfol. Luc: 22. 19 Mat: 26. 28*

Cred i Ghriſt ar groes ai hoelion,
Offrwn droſſod waed ei galon,
A phwrcaſſu bywyd itti,
R'wyti 'n bwyta Chriſt o ddiſri.

Os gofynni pwy ddaioni,
Ddyru Chriſt or ſwpper itti,
Pan dderbynniech hi 'n griſtnogaidd,
Mewn gwir ffydd, a chariad perffaidd.

Pwy ddaioni y gaer o dderbyn y cymmun yn delwng.

Mae 'n rhoi itti gyflawn bardwn,
Oth holl bechod * abſoluwſiwn,
Gwedi 'r brenin mawr ei ſelu,
A gwaed gwerthfawr calon Jeſu.

Mat: 26. 28 Eph: 1. 7
* *Rhyddhad.*

Mae 'n rhoi Pardwn, mae 'n rhoi bywyd,
Mae 'n rhoi Comfford, mae 'n rhoi iechyd,
Mae 'n rhoi ysbryd glan ai ddoniau,
Mae 'n rhoi 'hun, ai holl rinweddau.

Joan: 6. 48. 5 1 Cor: 10. 16

Mae 'n dy wneuthur di 'n gyfrannog,
Oi holl ddoniau mawr galluog,
Ag mewn ysbryd, mae ê 'n trigo,
Yn dy galon byth tro ganto.

Eph: 3. 17

Mae ê'n porthi d' Enaid egwan,
Ai wir gorph ai waed ei hunan,
Ag yn rhoddi nefawl ysbryd,
Itti 'n erneſt or gwir fywyd.

Eph: 1. 13.

Dielch. O bwy ddyled mawr ſydd arnad,
I folianu Chriſt yn waſtad,
Am dy wneuthur yn gyfrannog,
Or fâth ſwpper fawr gyfoethog.

Nerth. A phwy daliad ſy'n dy * bwer,
I roi iddo am ei ſwynder,
Ielly 'n porthi d' Enaid aflan,
Ai wir waed, ai gnawd ei hunan.

Na ſydd dithau mor nefeilaidd,
A mynd o'r llan, yn anweddaidd,
Nes rhoi clôd a moliant iddo,
Am yr ymborth y geſt gantho.

Haidd. in 6 Glas. Chriſt ni fwytau ſara * barliſh,
Chwauthach bwyd oedd well ei † reliſh
Heb roi moliant mawr am dano,
Iw dâd neſol heb anghofio.

Pwy faint mwy na ddylit tithau,
Fwyta Chriſt y penna or ſeigiau,
Heb roi diolch ir Duw cyfion,
Am ei fâb o ddwfnder calon.

A gwawdd nef, a dâer, a dynion,
Seraphiniaid, ag Angylion,
Ith gid helpu foli 'r Arglwydd,
Am ei gariad ai g'redigrwydd.

Gweddi

Gweddi cyn derbyn y cymmun.

ARglwydd graſſol r'hwn y roddaiſt,
Jeſu Griſt y mwya geraiſt,
'Fôd yn * ranſwm dros ein beiau,
Ag yn ymborth i 'n eneidiau.

* *Briâwerth.*

Dyro râs i minnau 'n ſanctaidd,
Y'mbartoi fel Chriſtion gweddaidd,
'Dderbyn Chriſt, trwy ffyddd im calon,
I borthi f'enaid arno 'n Euon.

Carth fy meddwl am cydwy bod,
Golch fi'n llwyr oddiwrth fy mhechod,
Gwna fi 'n lleſter glân i dderbyn,
Chriſt im calon, yn y cymmun.

Cryſha fy ffydd, amlha fyng obaith,
Enyn ynof gariad perffaith,
Sancteiddia 'r corph, cyfrwydda 'r enaid,
I dderbyn Chriſt y bwyd bendigaid.

Côd fyng halon cywch ar nefoedd,
Lle mae Chriſt, yr hwn am prynodd,
Pâr im henaid borthi arno,
A thrwy ffydd, gael grym oddiwrtho.

Pâr im gredu fôd im bardwn,
Am fy' mai er mwyn eî * baſſiwn,
A rhan hefyd oi holl ddoniau,
Y bwrcaſſodd, trwy loes angau.

* *Ddioddefaint.*

Pàr im gredu y daw i drigo,
Yn fyng halon byth tra ganto,
Ag na 'medy 'ſanctaidd ysbryd,
Nes fy nwyn ir nefoedd hyfryd.

1 Cor: 6. 19 Nâd gan hynny i mi nyrddo,
Y demel ſanctaidd lle mae'n trigo,
Nag halogi byth om lleſter,
Ond ŕgadw 'n lân bôb amſer.

Pâr im hefyd i glodfori,
Nôs a dydd ar eitha om gallu,
Ai fendithio 'n brydd bôb amſer,
Am yr ymborth ſy'n ei ſwppcr.

Gyngor i bob bextu ln i lywodrauthu ei dy yn dduwiol.

OS mynni fôd yn ddŷn i Dduw,
Yn Griſtion ſanctaidd tra fech byw,
Gwna dy dŷ, yn Eglwys fechan,
Ath deulu 'n dylwyth Duw ei hunan.

Gwna dy dŷ yn Demel gyſſon,
Gwna dy dylwyrh fel Angylion,
Yn ei graddau o bôb galwad,
I wainaethu Duw yn ddifrad.

Gwna dy dŷ yn demel ſanctaidd,
I addôli Duw yn weddaidd,
Gan bôb enaid a foynddo,
Forau a hwyr, yn ddi-ddyſſygio.

Dewis * fain o bobol raſſol,
Gwedi * ſquario ei gîd wrth reol,
Yn byw yn ſanctaidd, ag yn gymmwys,
I * adeilio dy lân Eglwys.

Nâd vn maen anghymwys ynddi,
Nâg vndrwg-ddyn ddywad iddi,
Nid rhai aſlan, ond rhai cymwys,
Y fyn Duw yn faen i Eglwys.

Tro 'r maen aſlan ôll oddiwrthyd,
Ni fyn Duw 'r faeth faeni ſarnllyd,
Tŷ i Griſt, nid ty i Gythrel,
Y fydd dy Eglwys di ath demel.

* Ffittiach ydiw i bobol aſlan,
Fôd yn fain i gorlan Satan,
Ag yn danwydd vffern driſt,
Nag yn fâin i Eglwys Griſt.

Maen anghymwys maen aſluniaidd,
Sy 'n anffyrffio Temel * griaidd,
Dŷn anneddfol, dŷn aneſmwyth,
A bair anglod ith holl dylwyth.

Na ddôd glogfaen câs anghymwys,
Heb ei * ſquario yn dy Eglwys,
Ag na dderbyn ith dŷ deddfol,
Rai digrefydd, at rai graſſol.

Ni wna meini câs anghymwys,
Ond diwreiddio gwelydd D'eglwys,
Nar rhai aſlan, drwg, di-grefydd,
Ond troi 'th Dŷ ai dor i fynydd.

Gyrr yr aſlan ffwrdd oth Deulu,
Cyn y ceiſiech Griſt ith llettu,
Christ * Ni ddaw Chriſt ir lle amherffaith,
at yr i troi Nes troi yn gynta 'r aſlan ymmaith.

Cor in hont

nuwioldeb, etto nid yw ef yn dyſod i cyſſuro hwynt, nes iddo ì io hwynt, Ioan: 14. 21.

14 Byth ni chytfydd mewn vn Demel,
Wir Blant Duw a phlant y Gythrel,
Mwy nar gwenin bach ar mwg,
Mor ysbryd glân ar ysbryd drwg.

Ni thrig Brenin lle bo moch,
Brwnt ei buchedd, gwaeth ei rhoch,
Ni thrig Chriſt ai ysbryd gwiwlan,
Yn yr vn tŷ ar rhai aſlan.

Os bydd ith dŷ rai digrefydd,
Meddwon, marllyd, ag anvfydd,
Tro hwy maes, fel Dafad glafrllyd,
Rhag Clafrio 'r faint ſydd gennyd.

9,10. Fel y bwriodd Abram, Iſmael,
Ffwrdd oi dŷ, am chwareu 'r * Rhebel,
r Gwr- ar ddyn. Felly bwrw dithav 'r aſlan,
Ffwrdd o fyſc dy Dylwyth allan.

101.7 Ni adaweu Dafydd frenin,
Wâs annuwiol yn ei gegin,
Na âd dithau ddrwg weithredwr,
Yn dy blâs, nag yn dy barlwr.

Yn gwas aflan a bair anair,
I lawerodd o rai diwair,
Nad gan hynny'r aflan orphwys,
Yn dy dŷ nag yn dy Eglwys.

Myn rhai duwiol ith wasnaethu,
Os dedwyddwch a chwenychu,
Duw fendithia waith y duwiol,
Pan ddel aflwydd ir anneddfol.

Gwas fel Joseph Duwiolgairwir,
Y dynn fendith ar dŷ i'feistir,
Ond y drwg-ddyn megis Achan,
All * andwyo 'r Tŷ ar Gorlan.

Os bydd gwâs cresyddol gennyd,
Duw fendithia dy hôll olud,
Fel y gwnaeth efe er mwyn * Jago,
I holl olud Laban lwyddo.

Gwell gwâs duwiol, llariaid, llonydd,
A dynn lwyddiant ar dy faesydd,
Nar digresydd gorau gaffech,
A dynn aflwydd ar y teddech.

Gwell y llwydda gorchwyl gwâs,
Diddrwg, llariaidd, llawn o râs,
Nag y llwydda gwaith anneddfol,
Gwâs digresydd, grymmus, graddol.

F' all gwasnaethwr doeth cresyddol,
Droi ei feistir' fôd yn ddeddfol,
Fal y dichon gwraig y Pagan,
Droi ei gwr yn Gristion gwiwlan.

Oni cheiſi bobol ddeddfol,
Ith waſnaethu yn grefyddol,
Byth ni bydd dy dŷ yn Demel,
Ond yn wâl a glwth ir Cythrel,

Nid wyd nes er gweiſion Cryſion,
I gyflawni dy orchwylion,
Oni byddant hefyd (Clyw)
Gryfi gwpla gorchwyl Duw.

Na fynn vn ith Dŷ ath Drigfa,
Nes bô o Deulu 'r ffydd yn gynta,
Nag vn gwâs, tra fech byw,
Nes bo 'n gynta 'n was i Dduw.

Ni fynn Eglwys Duw it dderbyn,
Twrgc, na Phagan, i'ti 'r Cymmun,
Na fyn dithau yn dy Deulu,
Rai digrefydd ith waſnaethu.

Ni bydd gwâs digrefydd, cywir,
Nag ir Arglwydd Dduw nai feiſtir,
Can 's asferol ir fath ddrwgwas,
Werthu ei feiſtir megis Suddas.

Cais gan hynny bobol ſanctaidd,
Pobol dduwiol, pobol weddaidd,
Ith waſnaethu tra fech byw,
Os gwnai dy Dŷ, yn Eglwys Duw.

Bydd dy hunan yn oleuni,
Ag yn batrwm o ddaioni,
Ith holl bobol mewn ſancteiddrwydd,
Glendid bulchedd, a goneſtrwydd.

A rho ſhiampleu da iw dilin,
Yn y neuawdd, yn y gegin,
Mewn gair, gweithred, ag ymddygiad,
I bôb rhai fo 'n diſgwyl arnad.

Rhodia gida Duw fel Enoch,
Bydd bôb amſer yn * wagelog,
Coſia, fod Duw a ſaith lygad,
Ym hob man yn diſgwyl arnad.

* Gochelgar.

Gwachel ddwedyddim nai wneithur,
Ond y fytho tra chymmeſſur,
O flaen Duw, a chroes y farchnad,
A phâr goſio hyn yn waſtad.

Bydd mor ſober, bydd mor ſanctaidd,
Bydd mor gynnil, bydd mor weddaidd,
Bydd mor ddeddfol, bydd mor gymwys,
Yn dy Dŷ' ag yn dy Eglwys.

Y mae dyled ar Benteulu,
Ddyſgu dylwyth wir grefyddu,
Nabod Dvw, a chadw ei ddeddfau,
Credu yn Ghriſt, ai 'ddoli yn ddiau.

Gen: 18. 19
D.ut: 6. 6,

Fel y dyſcau Abram, ebrwydd,
Bawb oi dŷ, i ofni 'r Arglwydd,
Felly dyſc dy blant ath Deulu,
I nabod Duw, ai wir waſnaethu.

Dyſc dy blant, a dyſc dy bobol,
I wir nadob ei Tâd nefol,
Ar iachawdwr a ddanſonwys,
Dyma 'r ffordd ir nef yn gymwys.

Planna gyfraith Dduw 'n waſtadol,
Yng halonnau pawb oth bobol,
Sonia am danynt hwyr a boreu,
Y mewn, y maes, wrth rodio ag eiſteu.

Duw ſy 'n erchi 'r Tadau ddangos,
Deut. 6. 6, 7, 8 Deddfau 'r Arglwydd i hŏll blantos,
Air hoi 'n laſiau ar ei dillad,
Er mwyn Cofio gair Duw 'n waſtad.

Darllain Bennod or ſcrythyrau,
Ith holl dylwyth nos a borau,
Ail adrodd. Pâr i bawb * repetio allont,
Deut. 1. 22 A byw 'n ôl y wers y ddyſgont.

Bydd reolwr, bydd offeiriad,
Bydd gynghorwr, bydd yn vnad,
Ar dy dŷ, ag ar dy bobol,
I reoli pawb wrth reol.

Bydd offeiriad iw cyſrwyddo,
Bydd gynghorwr iw rhybuddio,
Ag i draethu 'r fengil iddynt,
Ag i brudd-weddio droſtynt.

Tymmellu. Bydd reolwr i * gompelo,
Ag i gosbi 'r rhai droſeddo,
Ag i beri pawb oth bobol,
Fyw 'n griſtnogaidd ag yn foeſol.

Bydd di farnwr i gyfrannu,
Vnion farn, rhwng pawb oth deulu,
I roi tâl ir da, ar duwiol,
A dialeu ir anneddfol.

Gwna

Gwna di gyfraith gyfiawn gymmwys;
I reoli'th Dŷ a'th Eglwys,
Pâr ith bobol yn ddiragraith,
Fyw yn gymmwys wrth y gyfraith.

Dyſc i bawb yn gynta ei dyled,
Dangos b'wedd y dylent fyned,
Gwedi dyſcu 'r gyfraith groew,
Pâr ir wialen beri ei chadw.

Bydd ath llaw, a bydd ath lygad,
Yn liwyr ddiſgwyl ar ei ymddygiad,
Nâd i neb, ar air na gweithred,
Droi ar draws, heb gerydd caled.

Pâr i bawb oth dŷ ddiſcleirio,
Megis Seren yn goleuo,
Yn rhoi llewyrch, dyſc, ag vrddas,
I bob rhai ſo 'n trigo o gwmpas,

Pâr ith Dylwyth di ragori,
Mewn duwioldeb a daioni,
Fel 'r oedd Tylwyth Nôe dduwiola,
Yn rhagori 'r hôll fyd cynta.

Pâr ith wraig fôd megis ſeren,
Siriol, ſanctaidd, lonydd, lawen,
Yn Eſampl o Sancteiddrwydd,
Mewn gair, gweithred, a goneſtrwydd.

Pâr ith hôll blant fôd yn foeſol, *Tot: 35 6*
Yn griſtnogaidd ag yn raſſol,
Yn ymoſtwng iw rhieni,
Fel ylant Rechab yn y ſtori.

Pâr ith Dylwyth fôd yn ffyddlon,
Megis Tylwyth T ŷ Philemon,
Philem. 'Rhwn y waneth ei Dŷ yn Eglwys,
2 *Adnod.* Hwn, mor ſanctaidd y rheolwys.

Pâr ith bobol fyw mor gymmwys,
Yn dy Dŷ, ag yn dy Eglwys,
Ag mor ſanctaidd ym hob Cornel,
A pha baent ynghorph y Demel.

Nâd hwy ddangos gwaeth gynheddfeu,
Nâd hwy wneithur fryntach gaſtieu,
Yn y Tŷ nag yn yr Eglwys,
Ond pâr iddynt fyw yn gymmwys.

Nâd hwy dorri vn gorchymyn,
Or rhai lleia heb ei gwrafyn,
Nâd hwy ddilin vn drwg arfer,
Heb ei Cyffro 'wella ar fyrder.

Ihar: 26. 3 Nâd i ſawr na bychan dyngu,
Ihar: 23. 13, Enw 'r Arglwydd mawr nai gabla,
5. Na dibriſſio gwaed y Cymmod,
Ihar: 13. 24. Heb roi dial am ei bechod.

Dreulio. Nâd hwy * droclo 'r Saboth ſanctaidd
Mewn oferedd anghriſtnogaidd,
Cyfeillach o. Nag mewn gloddeſt, a * phibiaeth,
neu Yſgafn. Heb roi vnion gosbedigaeth.

Nâd vn wrando 'r gair yn ofer,
Heb ei ddilin gwedi clywer,
Ai ail gnoi, a ſôn am dano,
A byw yn ôl y wers y ddyſgo.

Nad

ad vn fyn.d y nos i gyſgu,
es * penlinio wrth ei welu,
g addoli Duw yn gynta.
in y rhoddo i gorph eſmwythdra.

* *Myned ar ei lin.*

âd vn fynd y borau allan,
t vn gorchwyl mawr na bychan,
es addoli Duw 'n ei ſtafell,
r ei ddaulin heb ei gymell.

âd vn daro ei law ar Arad,
ag ar orchwyl o vn galwad,
es y Cotto ei law yn gynta,
m gael Cymmorth Duw Gorucha.

âd vn fyned i ſhiwrneia,
ag i forio nag i * ffeira,
es ymbilio 'n daer a'r Arglwydd,
dwyn adre, yn ddidramg wydd.

* *Marchnata.*

âd vn arfer megis mochyn,
vyta ei fwyd allanw ei * growyn,
es bendithio 'r bwyd yn gynta,
chydnabod Duw gorucha.

* *Neu ei fwd.*

âd vn godi megis nifel,
wedi llanw ei fola ai foitel,
b rhoi diolch prudd a moliant,
'âd nefol, am ei porthiant.

d fôd vn oth Deulu 'n eiſieu,
waſanaeth nôs na boreu,
th waſnaethu Duw, bydd * gargus,
s gwaſnaetho neb ê'n ſceulus.

* *Diwyd.*

Nâd

Nad hwy arfer geirieu lloerig,
Nag ymadrodd brwnt, llygredig,
Senn, na rheg, na llw, nag en llib,
Ffrwmp, na ffroſt, na dim cyffelyb.

Dyſc dy blant, a rhwym dy bobol,
I arferu geiriau graſſol,
Geiriau 'barò maeth, a chyſſur,
Gras ag vrddas, it gwrandawyr.

Nad hwy arfer caſtieu bryntion,
Nad hwy watwar pobol wirion,
Nad hwy gablu rhai anafus,
Na bychanu 'r tlawd gofidus.

* *Sef, par iddynt waglid gormodedd or tobacco.*

Nad hwy whiffio yn y Seler,
Nad hwy feddwi ar vn amſer,
Nad hwy * ſugno mwg y ddalen,
Sydd yn ſpeilio 'r bol' ar Ceſen.

1 *Cor:* 11. 14

Nad hwy hoffi ffaſhiwn anllad,
Ar ei gwallt nag ar ei dillad,
Par i bôb vn fynd yn weddaidd,
Fynd yn gryno ag yn griaidd.

Gwel beth a ddwedir yn y ſeithfed ddaleu ynghilch gwrando 'r gair mewn plwyfeu craill, oni fydd pregeth yn dy plwyf dy hunan.

Ar y Saboth nad hwy ir Pebill,
Lle mae 'r deilion yn ymgynnill,
Nag i dramwy ir Tafarnau,
Lle mae 'r Diawl yn cadw ei wiliau.

Dôs ith Eglwys blwyf y Suliau,
Ath holl Dylwyth wrth dy Sodlau,
I addoli Duw 'n gyhoeddus,
Gida 'r dyrfa yn ddiſcaelus.

dith dylwyth drigo gartreu,
nſer gosber ar y Sulieu,
ad hwy loetran ar y Saboth,
gl y * cwhario, * chwarien dranuoeth.

Oudgwaglent chwariaethau pechadurus.
* *Neu, a chwareuo.*

ddôd ormod waith aneſmwyth,
yddiau 'r wythnos ar dy dylwyth,
Llwa ymbell awr yn llawen,
diffygiol godi ei gefen.

* *Neu lwſia, caniatâ.*

r y Saboth nâd hwy 'n ſegur,
âr i bob vn chwillo 'r ſcrythur,
g i weithio gwaith Duw 'n eſcyd,
flaen vn gwaith a ſo gennyd.

Exod: 20. 8

yſcdy dylwyth ar y Suliau,
ôb yn vn i ganu Pſalmau,
g * ymbwncio 'n llon ai gîlidd,
m air Duw a phwncciau crefydd.

* *Neu, ymreſymmu.*

Ar bôb Cinnio ar bôb Swpper,
Pâr i ryw vn ddarllain * Chapter,
I ro- ymborth i bob Enaid,
Pan bo 'r Corph yn Cael ei gyfraid.

* *Pennod.*

Nad dy Dŷ, na hwyr, na borau,
Heb waſanaeth a gweddiau,
Gwell ith dylwyth fôd heb ſwpper,
Tra fô 'nt byw, na bôd heb oſper.

Nâd ith Eglwys fôd vn amſer,
Heb waſanaeth pryd a goſper,
Nag heb Aberth-hwyr a borau,
Ir Tad nefol am ei ddoniau.

Nad

* Ysgubo.

Nâd vn Cornel a fo ynddi,
Heb ei * ddyscib o bôb bryntni,
Ar ddiscibell o ddifeirwch,
Nes cael ffafar Duw ai heddwch.

Golch ei llawr a halltion ddagrau,
Trwssia ei gwelydd a rhinweddau,
Nâd ei hallor heb dân arni,
Ag aroglau mawl o gweddi.

Cais dy hunan chwarau 'r ffeiriad,
Gasw ar Enw Duw yn wastad,
Bâr ith bobol gyd sefyrio,
Gida thi trech yn gweddio.

Pôb penteulu Cargcus, cymmwys,
Ddylae fôd fel gwr or Eglwys,
Yn Cynghori, yn rhybuddio,
Pawb oi dŷ, yn orau ag allo.

Ar fath drefen sy 'n yr Eglwys,
Yn rhoeli pawb yn gymmwys,
Ddylae fôd yn 'nhû, pob Christion,
Ireoli 'r Tŷ ar dynnion.

Gossod vn neu ddau oth denlu,
Fel wardeiniaid ith gyd-helpu,
Gadw 'th bobol ôll wrth drefen,
Ai rheoli yn dy absen.

Rhaid yw disgwyl ar arserion,
Ag ymddygiad pawb oth ddynion,
Ag ar lwybrau 'rhai sy 'n pechu,
Fel y gallech ei ceryddu.

Mewn

Nâd vn drwg-ddyn heb ei gosbi,
Yn ôl meſſur ei ddrygioni,
Rhag i arall bechu fwy, fwy,
Am it ffafro 'r anghymeradwy.

Dyro rybydd ir Troſſeddwr.
Dair gwaith, pedair, 'wella ei gyflwr,
Can ei daflu ffwrdd or gorlan,
Oni wella, trô fe allan.

O bydd meddwon, na bo ſobor,
Os bydd * drel na dderbyn gyngor,
Vn digred na charo grefydd,
Trô hwy maes yn ôl cael rhybydd.

* *Dyn cynâyn.*

Os bydd morwyn yn * ſcoldies,
Ag heb berchu Sara ei meiſtres,
Bwrw Hagar or drws allan,
Gâd ir feſtres gael ei hamcan.

* *Yn rhoi taſa drwg.*

Nâd ith ddynnion fôd yn ſegur,
Rho ryw daſc i bawb i wneithur,
Maeth diffrwythder, mamaeth gwradwydd,
Yw cyd-ddwyn a * ſegurlydrwydd.

Preg. 10. 18
* *Segurŷd.*

Myn weld pawb oth blant ath deuiu,
Yn mynd mewn pryd, pôb nos i gyſgu,
Arfer ddrwg yw gadel gweiſion,
Fynd i gyſgu pan y mynnon.

Pan boi 'n amſer mynd i gyſgu,
Cais gan Ghriſt fendithio 'th deulu,
A bod arnynt oll yn geidwad,
Gwedyn cymmer di dy gennad.

* Tegabs. Nâd vri Cornel a fo ynddi,
Heb ei * ddyſcib o bôb bryntni,
Ar ddiſcibell o ddiſeirwch,
Nes cael ffafar Duw ai heddwch.

Golch ei llawr a halltion ddagrau,
Trwſſia ei gweiydd a rhinweddau.
Nâd ei hallor heb dân arni,
Ag aroglau mawl o gweddi.

Cais dy hunan chwarau 'r ffeiriad,
Gaſw ar Enw Duw yn waſtad,
Bâr ith bobol gyd ſefyrio,
Gida thi trech yn gweddio.

Pôb penteulu Cargcus, cymmwys,
Ddylae fôd fel gwr or Eglwys,
Yn Cynghori, yn rhybuddio,
Pawb oi dŷ, yn orau ag allo.

Ar fath drefen ſy 'n yr Eglwys,
Yn rhoeli pawb yn gymmwys,
Ddylae fôd yn 'nhŷ, pob Chriſtion,
Ireoli 'r Tŷ ar dynnion.

Goſſod yn neu ddau oth denlu
Fel wardeiniaid ith gyd-helpu,
Gadw 'th bobol ôll wrth drefen,
Ai rheoli yn dy abſen.

Rhaid yw diſgwyl ar arſerion,
Ag ymddygiad pawb oth ddynion,
Ag ar lwybrau 'rhai ſy 'n pechu,
Fel y gallech ei ceryddu.

Mewn

Nâd vn drwg-ddyn heb ei gosbi,
Yn ôl meſſur ei ddrygioni,
Rhag i arall bechu fwy, fwy,
Am it ffafro 'r anghymeradwy.

Dyro rybydd ir Troſſeddwr.
Dair gwaith, pedair, 'wella ei gyflwr,
Can ei daflu ffwrdd or gorlan,
Oni wella, trô ſe allan.

O bydd meddwon, na bo ſobor, * *Dyn cynin.*
Os bydd * drel na dderbyn gyngor,
Vn digred na charo grefydd,
Trô hwy maes yn ôl cael rhybydd.

Os bydd morwyn yn * ſcoldies, * *Tarhoi taſ. drwg.*
Ag heb berchu Sara ei meiſtres,
Bwrw Hagar or drws allan,
Gâd ir feſtres gael ei hamcan.

Nâd ith ddynnion fôd yn ſegur,
Rho ryw daſc i bawb i wneithur,
Maeth diffrwythder, mamaeth gwradwydd, *Preg.* 10. 18
Yw cyd-ddwyn a * ſegurlydrwydd. * *Segurydd.*

Myn weld pawb oth blant ath deulu,
Yn mynd mewn pryd, pôb nos i gyſgu,
Arfer ddrwg yw gadel gweiſion,
Fynd i gyſgu pan y mynnon.

Pan boi 'n amſer mynd i gyſgu,
Cais gan Ghriſt fendithio 'th deulu,
A bod arnynt oll yn geidwad,
Gwedyn cymmer di dy gennad.

A rho rybydd ith hôll bobol,
Alw ar Dduw, 'n ddefosionol,
Fawr a bach, ar ben ei gliniau,
Cyn ir elont i * gwelyau.

* *Gwlau.*

Ag rhag ofon i Dduw gyrchu,
Rhai oi Cwsg i fynd i barnu,
Par i bob vn lwyr ymgweirio,
Fynd o flaen Dnw cin y cysgo.

Os yn llynn y llywodraethu,
Dy hôll dylwyth ath holl lettu,
Duw fendithia 'th dŷ, ath dylwyth,
Ag ach gwna chwi ôll yn esmwyth.

Ioan: 14. 23 Christ a Bressŵyl yn dy demel,
Christ ath wrendy yn dy drafel,
Sam: 2. 30 Christ ath dderbyn oth lan Eglwys,
Ar dy ddiwedd i Baradwys.

Am ddiwedd y byd,

PAwb syn chwennych dysgu 'r pryd,
Y daw Christ i farnu 'r byd,
Rheitiach yw, i bob rhai ddysgu,
Ymbartoi Cin mynd i barnu,

Ffol o beth i feibion dynion,
Geisio gwybod mwy na' Angylion,
A deallu wrth draws amcan,
Gyngor! Ddirgel * gwnsel Duw ei hunan.

Nid

Nid oes dyn na Diawl nag Angel,
All dealiu dim ôi gwnsel,
Nar holl fŷd yn abal * daclo;
Vn cyfrinach a so gantho. * *Datgloi.*

Ofer yw i neb chwenychu,
Nabod dim y so Duw 'n gelu,
A mynegi wrth draws amcan,
Beth nas gwydieu Christ ei hunan. *Mar:* 13. 32

Dysc gan Christ y petheu hyspyssodd,
Na chais wybod dim y gelo dd,
I ni perthyn a ddadgiddiwys,
I Dduw 'r cwbwl nâs mynegwys. *Deut:* 29. 29

Na chais wybod tra fech byw,
Ddim o ddirgel berthau Duw,
Ag os ceisi mae 'n ddiogel,
Boen a chwilidd am dy drafel.

Y mae 'r môr yn beddi lawer,
Sydd yn chwenych gweld ei ddwfnder,
Ar haul wen yn dallu llygaid,
Pawb edrycho arni 'n dambaid.

Dydd y farn sydd * siwr i ddyfod, * *Siccir.*
Y pryd nid oes ond Duw 'n ei wybod,
Ffol yw 'r dyn y geisio ddrogan,
Y dydd nas gwyr ond Duw ei hunan. *Mar:* 13. 32

Dweded pawb ei dewis chwedel,
Nid oes dyn, na Diawl, nag Angel,
Wŷr y dydd, nar awr, nar flwyddyn,
Y daw Christ i farnu arnyn.

Gwiliwch bawb a byddwch barod,
A diſgwyliwch nes ei ddyfod,
Mat: 25. 13 Ar y dydd ar awr nas gwypoch,
Y daw Chriſt yn ddirgel attoch.

Mat: 13. 3, 4 Jago a Pheder gynt ofynnodd,
I Griſt, cin ei * ddercha ir nefoedd,
* *Dder. haſad.* Athro, dangos cin dy * ddercha,
I ni 'r prŷd ar dydd diwetha.

Chriſt attebau ei ddiſcyblyon,
Nid perthynas i blant dynion,
Acts 1: 7. Wybod * Cwnſel y Gorucha,
* *Cynghor.* Am y dydd ar awr ddiwetha.

Mae Duw 'n cadw hynny 'n ddirgel,
Iddo ei hunan yn ddiogel,
Gwiliwn bawb a byddwch barod,
Nes y dêl, ni chaiff neb wybod.

Nid yw'r doetha o blant dynion,
Nar anwyla or Angylion,
Yn deallu hyn o Amſer,
Gweglwch gredu chwedleu oſer.

Elias gynt medd rhai y ddwedeu,
Y parhau 'r byd, chwe mil o flwyddeu,
Yn ôl hynny fe ddiweddid,
* *Adnewyddid* Drwy Dan poeth, nes ail * renewid.

Dwy fil heb vn Gyfraith haychen,
Dwy fil dan gyfreithau Moeſen,
Dwy fil dan Efengil Jeſu,
Os cae bara cyd a hynny.

Tair oês meddant ſyddir byd,
Vn * heb gyfraith oll i gid,
Y llall dan drwm lwyth gyfraith ſoeſen,
Ar drydydd dan y fengil lawen.

* *Sef yn Scri-*
fenedig.

Y ddwy oês gynta aethont heibio,
Ar drydydd oês ſyn para etto,
Hyd pa hyd, y peru weithian
Nis gwyr neb ond Duw ei hunan.

Mil a chwechant aethout heibio,
Or oês hon, ag ugain Cryno,
Fe all pawb wrth hynny wybod,
Nad oes fawr o bon heb ddarfod.

Pawb or doethion y gytuna,
Mae byrra oês ywr oês ddiwetha,
Os er mwyn y detholedig,
Hi fydd byrrach nid ychydig.

Iſan alwe'r oês hon ymma,
Yn ei ddyddiau, 'r oês ddiwetha,
Os diwetha 'r amſer hynny,
Mae hi 'n awr, ymton Terfynu.

1 *Ioan:* 2. 1

Diwedd pob peth oedd yn neſſid,
Pan oedd Peder yn y Pwlpid,
Nid oes lûn nad y diw 'r diwedd,
'Nawr wrth hynny, 'n agos rhyfedd.

2 *Pet:* 4. 7

Yn amſer paul yr oedd gan mwya,
Yr oês, ar dydd, ar awr ddiwedda,
Y rowan yn ein hamſer ninnau,
Mae 'r diwetha or mynedau.

Y bŷd ſy gwedu mynd yn gleirchyn,
Ag yn Grippil medd ſaint A'wſtin,
Y mae 'n Cerdded ar ffynn Baglau,
Nid oes nemor iddo o ddyddiau.

Gwiliwn bawb a byddwn barod,
at. 25. 13 Mae 'r dydd mawr yn agos dyfod,
Mae medd Chriſt ymron y drwſſau,
Trwſſiwn bob rhai ein Lucernâu.

Siccir. * Certen yw y daw ar fyrder,
Ancerteniol ydyw 'r amſer,
Pwy cin gynted nis gwyr vn dyn,
Byddwn bob awr, ar ein roſyn.

Nid oes dŷn medd Chriſt ei hunan,
Wŷr y dydd ar awr yn gyngan,
Nag vn Angel detholedig,
Na neb ond y Tad yn vnig.

Ofer yw gan hynny i ddynion,
negi. Gei ſio * maneg yr amſeron,
Y mae 'r Tad yngadw 'n gyngan,
Yn dta dirgel iddo ei hunan.

Etto Napier Enwau 'r flwyddyn,
Y gwna Duw ar bob peth derfyn,
Ag y bydd y flwyddyn hynny,
Cyn mil ſaith cant o oês Jeſu.

Dweded pawb ei dewis chwedel,
Nid oes dŷn na Diawl nag Angel,
Wŷr yr awr, nar dydd, nar flwyddyn,
Y gwna Duw ar bob peth detfyn.

Byddwn barod bawb gan hynny,
Edifarwn heno, heddu,
Ar y dydd, ar awr, nas gwypom,
Y daw Chriſt yn ddirgel attom.

Fel na nabu ſerchog Rachel,
Oi * thymp nes mynd ar ei thrafel,
Felly ni chaiff dynion nabod,
Dydd yr Arglwydd nes ei ddyfod.

* *Beichiog.*

Pan daeth amſer Rachel wiſci,
Ar ei phlentyn bâch eſcori,
F'orfu eſcori ar y bachgen,
Ar y ffordd dan fôn y dderwen.

Felly gorfydd ar y ddaiar,
Sy'n beichiogi er yn gynnar,
Gwympo 'i eſcori ar y meirw,
Pan del vdcorn Chriſt i galw.

Fel y daeth y Tân ar Brimſton,
Yn ddiſwmyth am ben Sodom,
Felly daw y Dydd diwedda,
Pan bo'r byd yn cyſcu 'n ſmala.

Luc: 17. 28, 29, 30

Ni wŷr neb or awr nar amſer,
Byddwn bôb awr, ar ein pryder,
An Lucernau yn ein dwylo,
Gidar merched call yn gwilio.

Mat: 25. 4

Mae 'r arwyddion gwedi cerdded,
Y ſanegodd Chriſt cyn *blaened,
Ond bôd'chydig or Iddewon,
Et to heb gredu 'r fengil dirion.

* *Eglŷred.*

Mat: 24. 9 Fe ferthyrwyd y' Poſtolion,
Actis 12. 2 A mil miloedd or Chriſtnogion,
Ymlhaid y ffydd, ar efengil,
Fe wŷr hollgred hyn yn rhigil.

Fe ddiniſtrwyd Caeruſalem,
Luc: 19.43,44 Nid oes maen ar faen lle gwelem,
Hit hau 'r Demel fawr y loſcwyd,
Mat: 24. 2 Ar Iddewon a wafgarwyd.

Fe aeth y fengil hygar hyfryd,
Ar fareh gwyn am draws yr holl fyd,
Mat: 24. 14 Nid oes Cornel dan y nefoedd,
Na bu 'r fengil ynddo 'n rhyw-fodd.

Mat: 24. 24 Nifer mawr o Griſtiau ffeilſiion,
Yng-rhêd ag angrêd y godaſlon,
A th rwy hocced Tad y celwydd,
Troeſont lawer i gamgrefydd.

Mat: 24. 6, 7 Rhyfel blin rhwng Twrc a Chriſtion,
Y fu 'n fynych iawn ni glywſon,
Son mawr fydd am ry fel etto,
Rhoed Duw hedd ir fawl ai caro.

Newyn mawr a thoſt d'rudaniaeth,
Y fu 'n llawer gwlad yſowaeth,
Haint, a Phlâg, a chwarr'n waedlud,
Y fu 'n hwyr ar hyd yr holl-fyd.

Daiar grûn y fu or mwya,
Apoc. 21. 11 Nes fyrthio 'r Demel fawr Diana,
A bwrw lawr y Treſydd mawrion,
Twrau, a cheſtyll, yn febwrthon.

R'haul

Rhaul ecclipſodd or Tywylla,
Nes mynd dydd, yn nos gan mwya,
Ar môr mawr aeth dros y * bangcau, Luc: 21. 25
Boddodd miloedd o eneidiau. * Torlannau.

Y mae Anghriſt yntau 'n rhochain,
Es llawer dydd yn Eglwys Rhuſain,
Ag yn * mwrddro 'r ſaint heb orphwys, * Neu yn lladd.
Eiſiau alw ê 'n benn ir Eglwys.

Cariad Perffaith yntau oerodd,
Ni char mab or Tâd ai magodd, Mat: 24. 12
Gwaudd a chweger ſy'n * ymſowtan, Mar: 13. 12
Cas gan frawd ei ſrawd ei hunan. † Tu ymd-fodi.

Ffydd yſowaeth ſyn mynd lai lai, Luc: 18. 8
Cred o gryn-fyd aeth yn garrai,
Aſſia, Affric, Grætiâ ffyddlon,
Sydd yrwan heb griſtnogion.

Nid oes yn or holl arwyddion,
A nd dymchweliad yr Iddewon,
Na bont eiſwys gwedi dyfod,
Gwiliwn bawb a byddwn barod.

Y mae 'r barnwr mawr yn cychwyn, Act: 10. 42
Mae e es dyddiau ar ei roſyn,
Fe ddaw weithian yn dra hoew, 1 Theſ: 4. 1
I roi barn ar fyw a meirw.

Mae gwedi hogi gleddau,
A golymmu ei holl ſaethau,
Mae ei fwa yn ei annel,
Ag yn barod myndi ryfel.

Mae fraich rymmus gwedy heſtyn,
Mae 'i Angylion ar ei roſyn,
Mat: 24. 37, 38, 39 Fe ddaw fel y diliw tanllyd,
I roi barn ar bawb or hollſyd.

O meddyliwn ninnau am wiliad,
Ag am didſgwyl ei ddyfodiad,
A bod bawb an cyfri 'n barod,
Ag yn daclys cyn ei ddyfod.

Coſtwch Angau.

BErr y w 'n hoes ag Ancerteiniol,
Heddu 'n fyw, y ſoru yn farwol,
Gynnau 'n Gawr, y boir yn gelain,
Dymma gyflwr dŷn ai ddamwain.

Ni bydd ymma am benn ennyd,
Vn o hônom heb ei ſymmud,
O meddyliwn am ein ſhiwrnau,
Heno os ſcatfydd rhaid ei dechrau.

Fel y rhed yr haul yr hwyr,
Fel y * troela 'r gannwyll gwyr, *Troella.*
Fel y ſyrthia 'r lhoſſyn gwynn,
Fel y difildd tarth ar lynn.

Felly Troela, felly rhed,
Felly derfydd pobol gred,
Felly diffydd bywyd dŷn,
Felly ſyrthiwn bob yn vn.

Fel

Fel llong dan hwyl, fel pôſt dan ſawd,
Fel ſaeth at farcc, fel Gwalch at ffawd,
Fel mwg ar wynt, fel llif ar ddwr,
Y * Poſta ymmaith einioes gwr.

* Rhêleg ar frus.

Fel ſaeth y rhêd, fel Poſt y gyrr,
Fel Cwyr y Tawdd, fel ia y tyrr,
Fel dail y ſyrth, fel gwellt y gwywa,
Fel Tarth y trig, fel Lamp y Troela.

Iac: 4. 14
1. Pet: 1. 24

Ni ddiflannwn fel y cyſcod,
Ni lwyr doddwn fel y manod,
Ni ddiharffwn fel glaſwelltyn,
Ni ddiffoddwn fel yr Ewyn.

Ni cheir gweled mwy on hôl,
Nag ol Neidir ar y ddôl,
Neu ol llong aeth dros y Tonnau,
Nen ol ſaeth mewn Awyr denau.

O ! gan hynny heddu, heno,
Moeſwch i'ni bawb ymgweirio,
'Fynd ar ffrwſt, a thynnu oddiyma,
Lle na chawn mor hir arhosfa.

Mewn Tai o glai, yr ym yn trigo,
* Storom gronn y bair ei ſyrthio,
Gwiliwn rhag ir Angau ein ſaethu,
A briwio 'r wal, Tra fom yn Cyſgu.

* Cynwrf de meſtl.

Fel y trewir pyſc a thryfer,
Fel y ſaethir pheſant dyner,
Fel y torrir blodau 'r ardd,
Fel y lleddir * gwaynidd hardd.

* Gweirgl dydd.

Felly

Felly trewir dŷn heb wybod,
Felly ſaethir yn ddiarfod,
Felly torrir gwchder dŷn,
Fell y 'n lladdir bob yr vn.

Brau yw 'n cnawd, a bâch yw'n cyflwr,
Gwann yw 'n grym, a gwael yw 'n cryſdwr,
Tippyn bâch o groes ne gerydd,
All yn troi an torr i fynydd.

Gwrâch all ladd y Cawr a chogeil,
Blewyn bâch all tagu 'r bugail,
Drâen ar draws all ladd yr hyſmon,
Duw mor ddiſerth yw plant dynion.

Y gwann, y gwael, y dwl, y dall,
Y ladd y cryf, y gwymp y call,
Y gwr di-barch, y maen nid mawr,
Y friwia 'n caer, y ddifa 'n cawr.

Beth yw dŷn, wrth hyn, ond tarth,
A mwg, a nywl, a gwellt, a gwarth,
A gwydyr crîn, a rhew a rhoſſyn,
A ſtên o bridd, a gwynt, ag ewyn.

Fel y cwymp holl ddail yr allt,
Fel y croppia 'r gwelle 'n gwallt,
Fel y gwywa lili 'r maes,
Fel y tyrr y gwydyr glâs.

Felly gwyw, felly tyrr,
Felly craccia 'n bywyd byrr,
Felly croppyr eineos dŷn,
Felly cwmpwn bob yr vn.

Fel

Fel tŷ bugail yn ſymmydyr,
Fel ſten briddlyd yn candrillyr,
Fel dylledyn y darfyddwn,
Fel y llwydrew y diflannwn.

Ni chawn aros mwy na 'n tadau,
Awn ir ffordd yr aethont hwyntau,
Rhaid i'n fynd i wneuthur cyfri,
A rhoi lle i eraill godi.

Nid oes lle in' aros ymma,
Ond dros ennyd i hafotta,
Gwedyn gorfydd ar bawb ſymmyd,
'Fynd ir fford yr aeth yr holl-fydd.

Y mae 'r angau glâs ai fwa,
Yn ein herlid ymhob tyrfa,
Nid oes vn-dyn all ddilmangyd,
Rhag ei follt, ai ſaeth wenwynllyd.

Mae è'n ddirgel yn marchogaeth,
Ar farch glâs ymhob cenhedlaeth,
Nid oes dŷn all diangc rhagddo,
Aed ir wlâd ar mann lle mynno.

Er bôd Hafael gynt na 'r ewig,
Er bòd Sawl fel eryr ffrolig,
Er bod Jehu 'n gynt nag yntau,
Ni ddihangodd vn rhag angau.

Er gwroled gwr oedd Sampſon,
F' orfu † ildo ir angau digllon,
Felly gorfydd arnòm ninnau,
Pyt fac ei gryfdwr yn ein breichiau.

† *Ymoſtwng*

Alexander

Alevander y gongcwerodd,
Yr holl ſyd y ffordd y cerddodd,
Oruchafiaeth. Angau gwedy 'r * conqueſt ſceler,
Y gongcwerodd Alexander.

Lladdodd angau bôb congcwerwr,
Lladdod Galen y peſſygwr,
Lladdodd Luc y meddig gorau,
Pwy all ddiange mwy rhag angau.

Satkru. Fel y * damſing meirch Rhyfelwr,
Mauh. Dan ei traed bob * ſort o ſilwyr,
Felly damſing angau diriaid,
Y Brenhinoedd fel begeriaid.

Lladdad Angau Abel wirion,
Lladdodd Angau Sanctaidd Aaron,
Lladdodd Cain a Cham Eſcymyn,
Nid ywr Angau 'n arbed vndŷn.

Bwyſog: Pharo 'r † Prins, ag Eli 'r ffeiriad,
Eſay 'r Prophwyd, Joel yr vnad,
Noha yr Patriarc, ar hen Dadau,
Y ddiferhwyd gan yr Angau.

Fel n'arbeden Herod greulon,
Ladd y bychain mwy nar mawrion,
Felly gwn nad arbed Angau,
Hen nag ifange, mwy nag yntau.

Pa rhoid iddo Aur yn bwnnau,
Mil o wledydd ai Coronau,
Ni chaed ganthô Arbed bywyd,
Dyn dros Awr, Pa rhoid yr hollfyd.

Ni

Ni chaiff neb ganlyniaeth gantho,
Er ymnheddag er ceiſio,
Mwy nag y Cae Bilat ddiglon,
Oi ganlyniaeth gan Iddewon.

Ni ry Angau Pan y delo,
Awr o * re-byt i ni ymgwelrio,
Nag va rhy bydd oi ddyſodiad,
Mwy nar Ci yn lladd y ddafad.

* Odſ.

Ond ſel llidir ſe ddaw 'r Angau,
Yn ddiſwmwyth am ein pennau,
Tro ni 'n Cyſcu yn ddioſon,
Fel Philiſtiaid am benn Sampſon

Os bydd diffig dim ir ſhawrnau,
Oel ir lamp, na gwiſc ir Cefnau,
Ni chaer gan yr Angau melyn,
Aros i ni fynd i nofyn.

Ond fel Brenin Babel dduras,
Yn Trei Sidrac whip ir ffwrnes,
Fe dry 'r Angau bawb y grantſo,
Ir ffwrn briddlyd fel y caffo.

Fel y daw y lleidir difiog,
Genol nos am benn goludog,
Felly daw yr Angau 'n Cyrchu,
Yn ddiymgais tro ni yn Cyſcu.

Fel y Teru gwr a thryſer,
Byſc tro 'n gorphwys yn ddibryder,
Felly teru Angau ddwrnod,
Ar blant dynion mor amharod.

Nad

Fel na wyr y Glomen dyner,
O Nar pryd, nar mann y Teru 'r flowier,
Felly yn hôllaul ni wyr vn dyn,
Nar pryd nar modd y bydd eî derfyn.

Mewn vn ffordd yr im yn dywad,
Ir byd hwn dan wylo yn irad,
A thrwy fil o ffyrdd heb farcco,
Yr im yn mynd y maes o hono.

S. Nid oes vn mann yn ddibryder,
Ma ddaw 'r Angau glâs ai dryfer,
I roi i'ni ddirgel ddyrnod,
Ymhob mann, och! byddwn barod.

Gen. 4. 8 Wrth droi 'r defaid mewn lle dirgel,
Y daeth Angau ar draws Abel,
Gwachel dithau gael ei ddyrnod,
Wrth droi dautu dy nifeilod.

Gen. 35. 19 Ar y gefnffordd wrth ſhiwrneia,
Y bu farw Rachel fwyna,
Wrth ſhiwrneia gwachel dithau,
Rhag cyfarfod ar glâs Anga u.

Job 1, 13. Pan oedd holl blant Job yn gwledda,
Y daeth Angau ar ei gwartha,
Nid oes gwarant gennyd tithau,
Yn dy wledd rhag dyrnod Angau.

Holophernes y fu farw,
Yn ei gwſc pan oedd ef meddw,
Gwachel dithau yn dy fedd-dod,
Rhag i, Angau roi 'ti ddyrnod.

Balthazar

Balthazar er maint eodd gantho, Dan: 5. 30
Y fu farw wrth * garowſio, * Ymyſcl.
Wrth garowſio gwachel dithau,
Od wyt gall rhag dyrnod Angau.

Ferows Angau anſad ddyrnod, Actis 12. 23
Ar y faingc i frenin Herod,
Ary faingc y dylae farnwyr,
Gofio Angau mawr ei hudyr.

Saethodd Angau ſaeth wenwynllyd, 1 Bren: 12.
Trwy gorph Achab yn ei gerbyd, * Cerbyd.
Yn dy * Goach ymgadw dithau,
Rhag dy daro a bollt Angau.

Fe ddaeth Angau megis mwrddrwr, Barn: 3. 21
Ar draws Eglon yn ei barlwr, * Trafach.
Gwachel dithau rhag ei biccell,
* Trech yn gorphwys yn dy ſlafell.

P an oedd Difes yn ei ſidan,
Ar phâr foethus oll yn hedfan, Luc: 16. 22
Fe ddaeth Angau ag ai lladdodd,
Gwachel dithau balch ei wiſcoedd.

Gwedi 'r Cerlyn adail llawer,
A chrynhoi dros hirfod amſer,
Fe ddaeth Angau ag ai lladdwys, Luc: 12. 20
Cyn cael profi 'r pethau glaſcwys.

Gwachel dithau 'r Cob ar Cerlyn,
Syn Crynhoi dros lawer blwyddyn,
Rhag ir Angau dy gyrhaeddyd,
Cyn cael profi dim oth olud.

Fe ddaeth Angau i drywanu,
Lev: 10. 2 Dau fab Aron wrth Aberthu,
Wrth yr Allor dylae'r ffeiriad,
Ofni Angau ai ddyfodiad.

Pan oedd Senacherib y Brenin,
Chro: 32. 21 Yn y Demel ar ei ddaulin,
Fe ddaeth Angau ag ai lladdwys,
Ofnwch Angau yn yr Eglwys.

Num: 25. 14, 15 Fe rows Angau frath i Zimbri,
Wrth gydorwedd gida Chosbi,
Gwachel dithau wrth buteinia,
Rhag ir Angau glâs dy ddala.

Emyn. * Nynn dy Lamp, a gwisc dy drwsliad;
Cin dêl Angau 'n Agos attad,
Gwna dy gownt ath gyfri 'n barod,
Cin dy alw o flaen y Drindod.

Mat: 25. 7 Bydd di barod heddu, heno,
Ag Oel ith lamp ath wisc yn gyfrdo,
Fynd o flaen dy farnwr prydd,
Y foru fe aile ydiw 'r dydd.

Ni wyr Peder, ni wyr Pawl,
Ni wyr Angel, ni wyr Diawl,
Ni wyr Planed, ni wyr dŷn,
Na neb on hawr, ond Duw ei hun.

Rhyd ddydd, rhyd nos, yn glaf yn iach,
Ar fôr a thir, yn fawr yn fach,
Mewn Tre a gwlad, pawb byddwch barod,
Ni wŷs pwy wlad y cawn ni'r dwrnod.

Gweithwch

Gweithiwch bawb, Tro 'r dydd yn para,
Cyn cotto 'r haul crynhowch y manna,
Derbyniwch ras, Tro Duw 'n ei gynnig,
Partowch eich rhaid cin delo 'r diffig.

Cin colli 'r Gôl, cin delo 'r nos.
Cin Torri 'r pren, cin cwympo ir ffos,
Cin cae y Porth, cin mynd ir garn,
Cin canu 'r Corn, cin rhoddi 'r farn.

Rhed am y chwyth, gwna waith dy Dduw,
Dwg ffrwyth yn rhin or gorau ei ryw,
Dos whipir wledd ar farn yn gyfrdo,
Cais dy gyfraid cin ymado.

Cyngor Difes.

CLywch bawb gwûn a chyngor Difes,
Or ffiam boeth ar danll yd ffwrnes,
I bum brodyr ai holl draffau,
Rhag ei dywad lle mae yntau.

Iud: 16. 19
Hyd y diw.

O fy mrodyr clywch fi 'n traethu,
Fyn hoft gyfluwr gwedi, 'ng-hladdu,
Fel y galloch ithau ddiange,
Rhag y cyfriw boenau didrange.

Mae arna 'i ddyled ich cynghori,
A rhoi rhybydd amlwg i chwi,
Rhag heb wybod i chwi ddywad,
Ir fath garchar di-ddymchweliad.

A pha gwypech faint om trallod,
Am holl boen yn vffern issod,
Chwi wrandawech ar fyng eiriau,
Rhag ich dywad ir fath boenau.

Gwn yn hysbys iawn pa gwypech,
Faint om poen, am Cûr, am gortrech,
Emprwr. Na chymerech dda * Amherod,
Er ei goddef vn diwrnod.

Os ni ddichon dŷn nag Angel,
Adrodd gymmaint yw fyn' rhafel,
Yn y flam ar Tân vffernol,
Lle 'm poenydir yn dragwyddol,

Bum 'i gynt yn fawr fy rhyfig,
Yn y bŷd yn wr Arbennig,
Yn rheoli fal mynnwn,
Ag yn gwneuthur faint wllyssiwn.

Bum yng olwg llawer vn,
Heb ofni Duw, heb berchi dŷn,
Digred. Yedaylsryd. Mwy nag * Infidel neu Bagan,
Y ddilynau ei * ffansi ei hunan.

Och mi dybiais trwy gam grefydd,
Na bawn marw yn dragywydd,
Ag o byddwn marw ynwaith,
Na ddoe 'morol arnai'r eilwaith.

Er bod Moysen, ar Prophwydi,
Yn mynegu 'n amlwg im mi,
Fod fy Enaid yn anfarwol,
Ni wnawn bris oi geiriau grassol.

Er

Er ei bod yn dangos im mi,
Y gorfydde wneuthur cyfri,
Ger bron Duw am bob fileindra,
Nid ae hynny yn fyng lhoppa.

'Nawr yn vffern rwi 'n cael dyfgu,
Mae gwir oeddent yn ei draethu,
Abod Enaid didranoc genni,
Yn y ffiam yn gwneuthur cyfri.

Tybiais hefyd tra fum byw,
Nad oedd vn nefoedd, nag vn Duw,
Nag vn vffern, nag vn Cythrel,
Na gwell diwedd dŷn na nifel.

'Nawr yn vffern wrth boenydio,
Y mae 'r Diawl im * Catcheifo,
Ag yn dangos yn * biaên im mi,
Fod Duw i ddial pob drygioni.

* *Addyſc.*
* *Eglur.*

'Nawr rwy 'n Clywed ag yn Canfod,
Fod y Diawl, ag vffern iſſod,
A mil miloedd o Gythreiliaid,
Wrth farn Duw yn poeni fênaid.

Rwi fi 'n gweld yn Eglur hollol.
Fod pob Enaid yn anfarwol,
Gwedi marw 'r Corph ai gladdu,
Bid drwg, bid da, fo 'r Enaid hynny.

'Nawr y gwn mae gwir yw 'r ſcrythur,
'Nawr y gwn fod Chriſt yn air-wir,
'Nawr y gwn y † troela 'r nefoedd,
Cin êl Geireu Chriſt yn niffodd.

Mat. 24. 8.
† *Treiglia.*

E iſieu Credu hon mewn amſer,
Nid yw ſyngred yn awr ond ofer,
Eiſieu ei chredu yn fy mywyd,
Mi fum byw fel nifail ynfyd.

Felly byddwch chwithau 'mrodyr,
Oni chredwch eiriau 'r Scrythyr,
Ag amcanu byw yn ddeddfol,
Yn ei hôl, fel meibion graſſol.

Eiſieu dilin Geiriau 'r ſcrythur,
Eiſieu doſi trachwant nattur,
Eſieu byw yng oleuni 'r fengil,
'Rwi fi'nawr mor doſt fy † mhiccil. flwr.

Eiſieu dilin Cyngor Moyſen,
Eiſieu Credu 'r fengil lawen,
Eiſieu cadw pwncciau 'r Gyfraith,
Y bu 'muchedd front mor ddiffaith.

Pan y troes i 'r fengil heibio,
Fe ddaeth Satan im cyfrwyddo,
Ag im Tynnu i bob drygioni,
Y tae 'nhrachwant yn ei hoffi.

Nid oes pechod allai draethu,
Nas dilynais nes im laru,
Nes mynd bywyd ffiaid Difes,
Mor ddihareb a Manaſſes.

Gwnaethym Dduw om golud bydol,
Rhoes fy 'mrŷd ar bethau cnawdol,
Ym hob drwg mi aethym ragof,
A gollyngais Dduw yn angof.

Felly

Telly gwedi toſt gamſyniaid,
Llwyr ddibriſſiais am fy Enaid,
Fel ryw nifel na bae 'n cofia,
Dim ond am y bŷd ar bola.

Mynnais drwſſiad gwych am danaf,
* Pwrpl coch, bob dydd or meinaf, * Yſcarlat.
'Nawr yn vffern rwi 'n noeth lemyn,
Am fyng hoegedd heb Edeſyn.

Mynnais Sindon, Lawnd, a Chambrig,
Yn fyng rhyſſeu, awr ag orig,
'Nawr gwae finneu na bae Garthen,
Neu hws Ceffyl am fyng hefen.

Minnau fynnwn lanw 'mola,
Ar ddainteith-fwyd or meiyſſa,
Bob diwrnod tra fu 'r flwyddyn,
Er bod f' naid yn dwyn newyn.

Bum mor foethus ag mor ddainti,
Ag na fynnwn vnwaith broſi,
Dim ond y fae tra ddainteithiol,
Bras a melus, drud, a manol.

'Nawr mi fynnwn pa cawn fwyta,
Soeg y moch i lanw 'mola,
Ag i dorri peth or newyn,
Syn dolurio pob Colyddyn.

Bum yn yfed, ag yn whiffo,
* Bur a gwîn, heb feſſur arno, * Diod.
Ag yn llanw 'mola ganwaith,
Nes ei chwdu fyny eilwaith.

'Nawr mi rown y bŷd yn gyfan,
Ai holl dryſſor pa cawn ddafan,
O ddwr oer i oeri 'n hafod,
Sydd mewn fflam yn lloſci 'n waſtod.

Er bod ar fy mord i friwſion,
Allau borthi ſwrn o dlodion,
Fe gae 'r Cwn y Cwbwl rhyngthyn,
Cin cae Lazar, vn briwſionyn.

'Nawr mae Lazar yntau 'n talu,
Pwyth hed adre, ag yn pallu,
Rhoi or ffynnon im mi ddafan,
Or dwr oer, er maint wi 'n * fegian.

Er bod Moyſen ar Propqwydi,
Yn rhoi llawer rhybydd im mi,
Ni wrandawn ar ddim a ddywedent,
Ni wnawn vn rhith ag a geiſient.

'Nawr gan hynny rwi 'n cael crio,
Ddydd a nos, heb gael fyng wrando,
Ond cael taflu yn fy nannedd,
Mor annuwiol y fu 'muchedd.

Pan pregethid yr Eſengil,
Minnau drown at hon fyng wegil,
Ag y gyſgwn ar fy nwrnau,
Pan bae eraill yn cael gwerſau.

'Nawr am gyſgu yn y demel,
Fe 'm * Tormentir gan y Cythrel,
Fel nad wyf yn abal Cyſgu,
Na marwino mwy ond hynny.

Ag

Ag am ſlino gwrando 'r ſengil,
Ag A thrawiaeth Chriſt yn rhugil,
Y mae 'n gorfod arna 'i wrando,
* Screch y Cythrel fyth tra gantho, * *Creglais.*

Eiſieu gwrando cyngor Moyſen,
Eiſieu credu 'r ſengil lawen,
Eiſieu dilin bon ai dyſgu,
Y mae yn vffern ſil yn * gryddu. * *Gryddſan.*

Minnau dreulais ddydd yr Arglwydd,
Mewn glothineb ag anlladrwydd,
Yn gan gwaeth mewn gloddeſt ſcymyn,
Nag vn dydd o ddyddiau 'r flwyddyn.

Mae ymma ſiloedd o rai annoeth,
Am halogi 'r Sanctaidd Saboth,
Heb gael Saboth nag Eſmwythdra,
Ond yn poeni, haf a gaya.

Cymrais Enw Duw yn ofer,
Fil o weithiau wrth fy 'mlheſer,
Nid oedd blâs ar chwedel genni,
Nes y Tyngwn Enw 'r Jeſu.

O bwy boenfa s' ar fy nhafod,
Am ddirmygu gwaed y Cymmod,
A phwy * dorment fy 'n fyng ryddfu, * *Boen.*
Am aherchu Enw 'r Jeſu.

Minnau offrwmais f'enaid ganwaith,
Yn y dydd, ir Cythrel diffaith,
Ami roi mor fynych iddo,
F'aeth y Diawl ar Enaid gantho.

Mae ymma lawer mil fel finnau,
Yn y pwll mewn irad boenau,
Am roi ei hun ir diawl dan regu,
Wedi i Griſt ai waed ei prynu.

Llawer vn a fum i yn hela,
O dra malis i ryfela,
Er mwyn Tywallt gwaed y gwirion,
Ai diſetha heb a choſſion.

'Nawr mae gwaed y rhain yn llefain,
Am ddialau arna 'i 'n filain,
Ag yn Cryo ar y Cythrel,
Dalu im mi am fynrhafel.

Bum yn gweſt ar fywyd ganwaith,
Heb nag ofon Duw nar gyfraith,
Yn Condemnio llawer Gwirion,
Ag yn Cadw llofrudd, lladron.

'Nawr mae 'r * mwrddwyr dan ei henw,
Ar drwg ddynion fum i 'n Gadw,
Yn y pwll yn llarpio f'enaid,
Mor ddiffafar ar Cythreiliaid.

Larais ar fyngwraig fy hunan,
Cymrais fenthig gwragedd aflan,
Llu or rhain ſŷn 'nawr im pwyo,
Ymhwll vffern am ei hudo.

Mae 'r baſtardiaid fum i yn ennill,
Or rhai aflan hyn, fel perchill,
Oll yn llefain ag yn Crio,
Am ir Cythrel fy * nhormento.

Minnau

Minnau orthrymmais blant y mddisaid
Pan bae farw vn om deilaid,
Awn ar ddau ŷch fawr or arad,
Rhag ir naill or ychen freifad.

'Nawr am dreisio 'r fath wirionaid,
Fem tost ffystir g an Gythreiliaid,
Yn gan gwaeth nag y bydd Tanner,
Ar Pawl mawn. yn ffysto 'r lleder.

Bum yn hirio anwir ddynion,
Lawer gwaith i dyngn 'n † vdon,
Ag yn yeri 'r rheini dyngu,
Y peth y fynnwn ond ei dyscu.

† *Anud n, a ddy ai fod.*

Mae rhain fel haid o nadredd,
Ddydd a nos, yn Cnoi fy mherfedd,
Ag yn rhwygo 'n dost fyng halon,
Am ei dyscn i dyngu 'u † vdon.

† *Anudon.*

Minnau elwais pobol wirion,
Weithiau 'n † fwrddwyr, weithiau 'n lladron,
Ag enllibiais wŷr a gwragedd,
Heb ddim achos, ond fy 'nrhawsedd.

† *Leiddiaid.*

Cedwais † hur a llawer Cyflog.
Ar fyng was, ar tlawd anffodiog,
Ag y ber ais ir Tlawd fedi,
Fy holl heinar, heb vn † beni.

† *Geiniog:*

'Nawr mae gwaedd y rheini 'n Crio,
Ar y drwgwr am fy mhwyo,
Am im Gadw hûr y rheini,
Ag Andwyo 'r Cyfriw dlodi.

Rhoddais

Mae ymma lawer mil fel ſinnau,
Yn y pwll mewn irad boenau,
Am roi ei hun ir diawl dan regu,
Wedi i Griſt ai waed ei prynu.

Llawer vn a ſum i yn hela,
O dra malis i ryfela,
Er mwyn Tywallt gwaed y gwirion,
Ai diſetha heb a choſſion.

'Nawr mae gwaed y rhain yn lleſain,
Am ddialau arna 'i 'n filain,
Ag yn Cryo ar y Cythrel,
Dalu im mi am ſynrhafel.

Bum yn gweſt ar ſywyd ganwaith,
Heb nag ofon Duw nar gyfraith,
Yn Condemnio llawer Gwirion,
Ag yn Cadw llofrudd, lladron.

'Nawr mae 'r * mwrddwyr dan ei henw,
Ar drwg ddynion ſum i 'n Cadw,
Yn y pwll yn llarpio f'enaid,
Mor ddiflafar ar Cythreiliaid.

Larais ar fyngwraig fy hunan,
Cymrais fenthig gwragedd aflan,
Llu or rhain ſŷn 'nawr im pwyo,
Ymhwll vffern am ei hudo.

Mae 'r baſtardiaid ſum i yn camill,
Or rhai aflan hyn, fel perchill,
Oll yn llefain ag yn Crio,
Am ir Cythrel fy * nhormento.

Minnau

Minnau orthrymmais blant y meddifaid
Pan bae farw vn om deilaid,
Awn ar ddau ŷch fawr or arad,
Rhag ir naill or ychen freifad.

'Nawr am dreiſio 'r fath wirionaid,
Fem toſt ffyſlin g an Gythreiliaid,
Yn gan gwaeth nag y bydd Tanner,
Ar Pawl mawn. yn ffyſto 'r lleder.

Bum yn hirio anwir ddynion,
Lawer gwaith i dyngu 'n † vdon,
Ag yn yeri 'r rheiai dyngu,
Y peth y fynnwn ond ei dyſcu.

† *Anud n, a ddy ai ſod.*

Mae rhain fel haid o nadredd,
Ddydd a nos, yn Cnoi fy mherfedd,
Ag yn rhwygo 'n doſt fyng halon,
Am ei dyſcu i dyngu 'u † vdon.

† *Anudon.*

Minnau elwais pobol wirion,
Weithiau 'n † fwrddwyr, weithiau 'n [illegible], † *Leiddiaid.*
Ag enllibiais wŷr a gwragedd,
Heb ddim achos, ond fy 'nhawfedd.

Cedwais † hur a llawer Cyflog,
Ar fyng was, ar llawd anffodiog,
Ag y ber ais ir Llawd fedi,
Fy holl heinar, heb vn † beni.

† *Geiniog:*

'Nawr mae gwaedd y rheini 'n Crio,
Ar y drwgwr am fy mhwyo,
Am im Gadw hûr y rheini,
Ag Andwyo 'r Cyfriw dlodi.

Rhoddais

Oeraeth. Rhoddais f' arian gynt ar * occor,
Ir dŷn Tlawd fel Cebydd angor,
Nes im lwngcu feddau 'r tiodion,
Ai handwyo am bargennion.

'Nawr mae llawer vn o rheini,
Ymma yn vffern yn fy mhoeni,
Am ei gyrru i ledratta,
Gwedi fy occor brwnt ei difa.

Rhoddais ir Cyfreithwŷr duon,
Wobr fawr am dreiſio tlodion,
Mae 'r Cyfreithwŷr yn fy llethu,
Ymma yn vffern am ei llygru.

Rhoddais gennad im holl weiſion,
Flino. * Vexo pawb om Cymmydogion,
'Nawr mae 'r gweiſion am ei goddau,
Yn vexo 'n doit fy Enaid innau.

Prynais dir dan bris gan fagad,
Cedwais beth ar bawb oi Taliad,
'Nawr mewn Carchar rwi am hynny,
Heb ſod gennif rôt i dalu.

Pa dae ddime 'n abal prynu,
Rhydd-did im mi om Carclfardu,
Am dwyn or pwll, ir nefoedd olau,
Nid wi 'n abal cael mor ddimmau.

Cefais rybydd fil o weithieu,
Am roi dreiſiais eilwaith adre,
Minnau awn ir Tân vffernol,
Cin rhown ddimmeu yn ei gwrthol.

Pan

Pan y gwerthwn wlân a llafur,
Rhown gam bwyſaû, rhown gam feſſur,
Yn yr ŷd mi werthwn * raban,
Yr vn bris ar gwenith purlan.

* Yd ambûr.

Ag yn Erbyn Duw ai ddeddfau,
Cedwaisamriw * ſort o bwyſau,
Pwys rhy fawr, pan fawn yn prynu,
A phwys rhy fach, pan fawn yn gwerthu.

* Fath.

'Nawr fêm Curi r ar fyng hloppa,
Gan y Diawl ar pwyſau mwya,
A phawb Eraill megis minnau,
Y fo 'n arfer amriw bwyſau.

Ni adewais bwngc or Gyfraith,
Heb ei thorri lawer Canwaith,
Mi ymdrois ymhob rhiw bechod,
Nes ir Angau roi 'mi ddwrnod.

Mi fynegris i chwi yn olau,
B' wedd y bum i byw hyd Angau,
Mi fynega i chwi weithian,
B' wedd im poenir danlaw Satan.

Y mae 'r pwll lle rwyfi 'n trigo,
Yn ddwfn iawn heb waelod iddo,
Ai holl welydd Cyn ycheled,
Nad oes Gobaith Cael ymwared.

Date: 20_3

Y mae 'r pwll dros fyth yn lloſgi,
O dân poeth fel mór yn berwi,
Y mae anal Duw ei hunan,
Yn ei drin, fel mõr o frwmſtan.

Gwedy

Oecraeth. Rhoddais f' arian gynt ar * occor,
Ir dŷn Tlawd fel Cebydd angor,
Nes im lwngcu feddau 'r tiodion,
Ai handwyo am bargennion.

'Nawr mae llawer vn o rheini,
Ymma yn vffern yn fy mhoeni,
Am ei gyrru i ledratta,
Gwedi fy occor brwnt ei difa.

Rhoddais ir Cyfreithwŷr duon,
Wobr fawr am dreiſio tlodion,
Mae 'r Cyfreithwŷr yn fy llethu,
Ymma yn vffern am ei llygru.

Rhoddais gennad im holl weiſion,
Flire. * Vexo pawb om Cymmydogion,
'Nawr mae 'r gweiſion am ei goddau,
Yn vexo 'n doit fy Enaid innau.

Pryna[illegible] dir dan bris gan fagad,
Cedw[illegible] beth ar bawb oi Taliad,
'Naw[illegible] mewn Carchar rwi am hynny,
Heb ſod gennif rôt i dalu.

Pa dae ddime 'n abal prynu,
Rhydd-did im mi om Carchardu,
Am dwyn or pwll, ir nefoedd olau,
Nid wi 'n abal cael mor ddimmau.

Cefais rybydd fil o weithieu,
Am roi dreiſiais eilwaith adre,
Minnau awn ir Tân vffernol,
Cin rhown ddimmeu yn ei gwrthol.

Pan

Pan y gwerthwn wlân a llafur,
Rhown gam bwyſaû, rhown gam feſſur,
Yn yr ŷd mi werthwn * raban,
Yr yn bris ar gwenith purlan.

* Td ambûr.

Ag yn Erbyn Duw ai ddeddfau,
Cedwaisamriw * ſort o bwyſau.
Pwys rhy fawr, pan fawn yn prynu,
A phwys rhy fach, pan fawn yn gwerthu.

* Eath.

'Nawr fêm Curi r ar fyng hloppa,
Gan y Diawl ar pwyſau mwya,
A phawb Eraill megis minnau,
Y fo 'n arfer amriw bwyſau.

Ni adewais bwngc or Gyfraith,
Heb ei thorri lawer Canwaith,
Mi ymdrois ymhob rhiw bechod,
Nes ir Angau roi 'mi ddwrnod.

Mi fynegris i chwi yn olau,
B' wedd y bum i byw hyd Angau,
Mi fynega i chwi weithian,
B' wedd im poenir danlaw Satan.

Y mae 'r pwll lle rwyfi 'n trigo,
Yn ddwfn iawn heb waelod iddo,
Ai holl welydd Cyn ycheled,
Nad oes Gobaith Cael ymwared.

Date: 20_3

Y mae 'r pwll dros fyth yn lloſgi,
O dân poeth fel mór yn berwi,
Y mae anal Duw ei hunan,
Yn ei drin, fel mõr o frwmſtan.

Gwedy

Gwedi nynnu 'r Tân hyn vnwaith,
Byth ni ddiffidd hwn yr eilwaith,
Nid rhaid chwthu dim o hono,
Mae ê 'n Cynnu heb ei gyffro.

Mar: 9. 44 Y mae 'r Tân dros fyth yn lloſci,
Yn dra ffyrnig ag yn poeni,
Ag er hyn nid yw ê 'n truelio,
Nag yn diſa dim êl iddo.

Y mae 'r vn tân yn poeni 'r bobol,
Ond mewn dull a modd neilltuol,
Mat: 10. 15 Rhai yn fwy, neu lai o ronyn,
Fel y bytho ei bei au yn gofyn.

Yr Haul a luſc y Moore ar Indla,
Yn fwy nar rhai a drig yn Rwſſia,
Vffern boeth y luſc yn boethach,
Bechod mawr na pechod byrrach.

Luk: 2 2. 13 Nid oes yn y pwll yn Trigo,
Neb heb rwym, ar draed a dwylo,
Mewn Cadwynau Tragwyddoldeb,
Am ei pechod ai ffolineb.

Mat: 25. 30 Mae tywyllwch hefyd ynddo,
All pob rhai yn hawdd ei deimlo,
Ag er dechrau 'r bŷd ni walad,
Ynddo, olau 'r Haûl neû 'r lleuad.

Mae ê 'drewi Cyn ffyrnicced,
Nad oes dim all ddrewi gaſſed,
Er bod miloedd yn ei nyrddo,
Ni lanhawd er ioed mo hono.

Y

Y mae pryfed ynddo yn bwyta, *Ma.*
* Conſciens dyn heb gael ei gwala, * *C.*
Dydd a nos, yn fawr ei hawydd,
Ag heb farw yn dragywydd.

Y mae gwedi mil o filoedd,
O gythreuliaid megis lluoedd,
Yn † Tormento'r rhai damnedig, * *Inpœni.*
Ag heb orphwys awr nag orig.

Maent yn dyrnu ag yn pwyo,
Rhai damnedig heb ddyffygio,
Ag Er maint y ſont yn ddial,
Byth ni chymer yn oi anal.

Y mae * Torment yn dragwyddol, * *Pœn.*
Ag ar bawb yn gyffredinol,
Yn Tormento pawb ar neilltu,
Ymhob aûlod y fu 'n pechu.

Y mae 'r ſlygaid heb gael gweled,
Ond Cythreuliaid, Er ei Caſſed,
Ag Eneidiau Rhai damnedig,
Yn y pwll yn wylo yn ffyrnig.

Y mae 'r Genau yntau 'n bwyta, *Pſalm 75. 8*
Buſtl Lindis, bwyd or chwerwa,
Ag heb yſed dim ond Gwaddod,
O ddigofaint Toſt y drindod.

Y mae 'r Cluſtiau hwyntau yn gwrando, *Luc 13. 28*
† Screch y diawl ai blant yn Crio, * *Creglais.*
A thoſt ochain rhai damnedig,
Yn ſcyrnygu dannedd ffyrnig.

Y

Y mae 'r Tafod yntau yn lloſci,
Ag mewn Brimſton poeth yn berwi,
Heb gael Cymmaint ag vn dafan,
4,25 O ddwr oer i ddofi 'r lloſcfan.

Y mae 'r ffroenau yn aroglu,
1.8 Gwynt y Brwmſtan or Carchardu,
Sydd heb garthu etto Er Adda,
Ag yn drewi or ffyrnicca.

Y mae 'r Traed ar dwylo hwyntau,
t: 22. 13 Gwedi Clymmu mewn Cadwynau,
Ag heb Allel Troi na threiglo,
Or lle 'r ydys yn ei * brwylio.
Poetbu.

Y mae dannedd pawb yn rhinccian,
Swn. Yn ſcyrnygû ar fath dwrddan,
Ag y bydd Echrydys * gennwn,
Luc: 13. 28 Wrando ei llais, na gweld ei ffa ſhiwn.
Gennym.

Y mae pryfed Câs anfarwol,
Cidwybod. Yn Cnoi * Conſciens pob annuwiol,
Mar: 9. 43, 44 Ag yn bwyta 'n llym Eſcymmyn,
Etto byth heb dorri ei newyn.

Fel y pechodd pob rhyw aelod,
Ag oedd gennif, nôd fy mhâfod,
Felly poenir fy aelodau,
Bob yn vn ag amriw boenau.

Mae pob aelod yn poenydio,
Mae pob mann a dial arno,
Mae pob dial yn dragywydd,
Yn poenydio heb ddim llonydd.

Ni bydd marw byth mor pryfyn,
Byth ni ddiffidd Tân yr Odyn,
Niddaw Angau er y geiſiaf,
Byth i wneuthur diwedd arnrf.

Ni bu 'r diliw ond blwydd hynod,
Na than Sodom ond diwrnod,
Newyn Egipt ond ſaith mlynedd,
Mae 'mhoen innau byth heb ddiwedd. * Aphr.

Pa cawn rydd-did om holl boenau,
Am ben Can mil o flynyddau,
Byddeu hynny gynfferdd im mi,
Ond dros fyth mae 'n rhaid im boeni.

Y gair byth ſy 'n torri nghalon,
Y gair byth ſy 'n Cnoi nghylyddion, 2 Theſ: 1. 9
Y gair byth ſy 'n peri im mi,
Fwyta 'm reichiau a gwallgofi.

Toſt yw goddau hyn o gyſtndd,
Dan law Satan yn dragywydd,
Y mae Etto beth fydd doſtach,
Colli 'r Jeſu ai gyfeillach.

Colli 'r bywyd, Cylli 'r Goron,
Colli 'r Jeſu, ai Angylion,
Colli 'r nefoedd, ai rhialwch,
Colli Duw, a phob dedwyddwch.

Melldith Duw ir dydd im ganed,
Anap ddrwg ir awr im llunied,
Vffern boeth im mam na baſſeu,
Yn dwyn llyffant yn fynghfleu.

Gwae

Gwae fi erioed na thorſai 'ng-wddwg,
Ar y ploccyn prena bilwg,
Cin rhoi bron i ſâb anwadal,
Iddigio Duw, i ddwyn ei ddial.

Nid oes Cythrel na dyn ſcymmyn,
Ymma yn vffern ai holl derfyn.
Cyſrdo. Na lôn ac ei Cylch yn * Gyngan,
Yn fy mhwyo fawr a bychan.

Nid oes Enaid dŷn Er Adda,
Ym hwll vffern mewn mwy boenfa,
Mewn mwy trallod, mewn mwy eiſieu,
Nag y mae fy Enaid inneu.

Dymma 'ng, huſtydd, dymma 'mhoefna,
Dymma 'ng-wewyr, dymma 'ng-waſcfa,
Dymma 'r Cyfiwr yr wi ynddo,
Bob yn awr yn toſt boenydio.

O gan hynny fy 'mhvm brodyr,
A phawb Eraill ſydd o ſynwyr,
Cymrwch rybydd cin del Angau,
Rhag iwch ddywad lle 'rwi finnau.

Oni byddwch Ediferiol,
Ffyddlon, vfydd, a chriſtnogol,
Gwn na ddengis Duw 'r Dialau,
Iwch fwy ffafar nag i minnau.

Atteb i Gweſtiwn ynghylch gweddio dros y marw: ble dangoſir anghyfreithlondeb gweddio dros y cyfriw.

FYnghâr am gwir annwylyd,
Gotynfoch gweſtiwn hyfryd,
A gweddys im, ymhlaid ych ffydd,
Rhoi atteb prydd oi blegid.

Hyn ymma yw 'ch gofyniad,
Ai gweddys iw ir ffeiriad,
Weddio dros y marw 'n brudd,
Yn ôl y dydd * departiad.

* Ymmadawiad.

'Rwi 'n atteb i chwi yn groew,
Na dioddef y Scrythur alw,
Nag weddio, na dydd na nôs,
Yn ofer dros y marw.

Mae Duw yn barnu 'r enaid,
Ir nef neu vffern dambaid, Heb. 9. 27
Yr awr yr êl, or corph y maes,
Yn ôl ei * gâs ai weithred.

* Neucyfiwr.

Mae enaid y duwolion, Luc: 23. 42
Yn mynd or corph yn vnion, Act: 7. 59
Ir nefoedd at Angelion gwir, Phil: 1. 23
Fel enaid Lazer wirion. Luc: 16. 22

Mae enaid yr annuwiol,
Yn mynd ir pwll vffernol, Luc: 16. 23
Cyn elo 'r corph ir tân ar rhês,
Fel enaid Difes fydol.

* *Rheolaeth.* Mae 'r duwiol mewn dedwyddwch,
Gogoniant a * rhialwch,
Psalm 16. 11 Ar fath nid rhaid i geisio mwy,
Gadawn ni hwy mewn heddwch.

Nid rhaid gweddio drostynt,
Gan gystal yw ei helynt,
Y maent hwy gida 'r oen bob awr,
Mewn swpper sawr sydd ganthynt.

Luc: 16. 2[illegible] Mae 'r Enaid anwir yntau,
Hyd: 27 Yn griddfan yn y poenau,
Ni ddaw hwn, oi boen ai blãg,
Er gweddi nag offrwmmau.

* *Sef poenau 'r annuwiol.* Pa ceisieu Job a Daniel,
Noah, Abraham, Moysen, Samuel,
Laeseu * ei poenau yn y fflam,
Ni chânt ddim am ei trafel.

Pa deleu 'r bŷd yn gyfan,
A gweiddi am laesu 'r boênfan,
Ni chânt gwedi marw 'r gwr,
Or droppyn dwr iw Safan.

Yn ôl i vn dŷn farw,
A chael y farn yn groew,
Ofer yw, ir wlâd ar plwyf,
Weddio mwy dros hwnnw.

Pa deleu ffeiriaid holl-fyd,
I grio droflo yn daerllyd,
Newidiau. Ai haberthau o bôb rhyw.
Fa[illegible]u. Ni * altreu Duw moi * ferdid.

Y farn y ſaif yn ddilys, *Preg:* 11. 3
L le cwympo 'r pren ſe erys,
Ni newid Duw or ſaen y rows, *Jac:* 1. 17
Er ioed ni throws oi 'wllys.

Mae Duw yn ddianwadal,
Y farn y rows ſe 'i cynnal,
Ni all y byd ai hymbil taêr,
Nar nef nar ddâer ei hattal.

Gan hynny 'rwi 'n cynghori,
I bawb y garo weddi,
'Geiſio hon, tra fô yntho wrês,
Os nais ê iês oddiwrthir

Mae amſer i weddio,
Sef eſn i dynn * ddepartio, * *Ymmado neu farw:*
Gweddi, gwedi marw neb, * *Leſhau.*
Sydd weddi heb * befrailio.

Mae Chriſt yn erchi 'r treiſiwr,
Gyttuno ai wrthnebwr,
Tro at y ffordd cyn delo 'mlaen, *Mat:* 5. 25, 26
Rhag myned o flaen y barnwr.

Rhag rhwymo ei draed ai ddwylo,
Ai daflu i gael i * frwylo, * *Bocthi.*
O eiſieu gwneuthur Jawn mewn pryd,
Nis tynn y bŷd oddiyno.

Cyn marw mae * repentio, * *Edifaru.*
Tra fo hi 'n ddydd mae ymgweirio, *Ioan:* 12. 35
Pan el hi 'n nôs medd Chriſt eu hun,
Ni all vn dyn mor gweithio.

Fe wyddau Ddafydd frenin,
2 Sam 12. 15 Pan ddarfu am y plentyn,
Hyd. 24 Mae ofer oedd gweddio mwy,
Dros hwnnw trwy hir ganlyn.

I ddangos hyn mor ofer,
I vn rhyw ddŷn i arfer,
Gweddi, gwedi marw 'r ffrind,
Yn oli fynd i eſmwythder.

Nid oes i bawb ond dau-le,
I fined gwedi angeu,
Nef, ag vffern, medd gair Duw,
Tân pur nid yw ond chwedleu.

* Arot. Nid rhaid i neb weddio,
A myndir nefi * darrio,
Luc. 16, 25 Os yn vffern y gwna ei nyth,
Ni ddaw ê byth oddiyno.

Nid oedd y ffeiriaid gorau,
Yn goddef y farh weddiau,
Nis gwna ond rhyw ffeiriedin ffôl,
Sy 'n ſerchi 'n ôl y ddimmau.

Mae dyled ar bôb ffeiriad,
Roi diol cham adawiad,
Pob dyn duwiol yn ddi ddoi,
Mewn gobaith oi gyfydiod.

Ond am weddio troſtyn,
Yn ôl ei cladd ai terfyn,
* Gwahardd- Peth di-lês, * gwarddedig yw,
dig. Nis gwna ond rhyw oferddyn.

Wel' dymma i chwi atteb,
Och cweſtiwn mewn ffyddiondeb,
Duw rô cynydd ar ych ffydd,
A grâs yn brudd ich wyneb.

Achwyn Mr. Prichard ynghilch Trefflanddyfri, ai Rybydd ai gyngor ef iddi.

MEne tecel Trefflanddyfri,
Pwyſodd Duw di yn dy fryntni,
Ni châs ynod ond y Sorod,
Gwachel weithian rhag y Drindod.

Gwialen doſt ſydd barod itti,
Er yr ys dyddieu am dy frwntni,
Ath anwiredd ſy 'n cynyddu,
Gwachel weithian gael dy faeddu.

Hîr yr herys Duw heb daro,
Llwyr y dial pan y delo,
Am yr echwyn ar hîr ſcori,
Och! ſe dâl ar vn-waith itti.

Mae 'n rhoi amſer itti wella,
Mae 'n rhoi rhybydd or helaetha,
Cymmer rybydd tra fo 'r amſer,
Onidê fe bryn dy grwpper.

Pa hwya mae Duw 'n aros wrthyd,
Am ddiſeirwch a gwell fywyd,
Waeth waeth, waeth waeth yw dy fuchedd,
Ond gwae di, pan ddel y diwedd.

Lle bo Duw yn hir yn oedi,
Heb roi dial am ddrygioni,
Trwmma oll y fydd y drindod,
Pan y dêl i ddial pechod.

Gwachel ditheu ddial Duw,
Fe ddaw ar frys, er llaesed yw;
Ai draed o wlân, ai ddwrn o blwm,
Lledelo 'n llaês, fe dery 'n drwm.

Tebig ydwyt i Gomorra,
Sodom boeth, a thre Samaria,
Rhai na fynnent wella hyd farw,
Nes i troi yu llwch a llwdw.

Tebig ydwyt ti i Pharao,
Oedd ai galon gwedi ferrio,
'Rhwn na fynneu wella ei fuchedd,
Rhoddi plâ yno. Nes i *blago yn y diwedd.

Ymbeuthyn. Cefaiſt rybydd lawer pryd,
Nid yw cyngor *moethyn it,
Nid oes lun it wnenthur eſcys,
O! gwae di y dre anhappys.

Bore codais gida 'r ceiliog,
Hîn ddilynais byth yn d'annog,
'Droi at Dduw oddiwrth dy fryntni,
Ond nid oedd ond ofer im mi.

Cenais itti 'r vdcorn aethlyd,
O farn Duw, ai lid anhyfryd,
Ith ddehyno, o drwm gwſc pechod,
Chwrnu er hyn wyti yn waſtod.

Minnau

Minnau * Lith ais a disigil, * Ymdrechais.
Addewidion yr Efengil,
Yn fwyn ith wawdd i edifeirwch,
Ond ni chefais ond y tristwch.

Mith fwgwthiais dithau ar gyfraith,
A dialau Duw ar vn waith,
Geisio ffrwyno d'ên rhag pechu,
Ffrom a ffolw y ti er hynny.

Cenais bibe, ond ni ddawnsiaist,
Tost gwynfannais, nid alaraist, Mat: 11. 17
Ceisiais trwy deg, a thrwy Hagar,
Ni chawn genid ond y gwatwar.

Beth allai wneuthur weithian,
Ond tynnu i ochor ceulan,
I wylo 'r deigrau gwaed pa gallwn,
Weld dy arwain tu ar * dwngwn. * Daeardy se vffern.

Pwy na wyle weled Sattan,
Yn dy dynnu wrth ede Sidan,
I bwll vffern yn dragwyddol,
Ar bach, ar † bait o blesser cnawdol. * Abwyd.

Esaw wertheu y 'tifeddiaetd,
Am Phiolaid gawlysowaeth,
Dithe werthaist, deyrnas nefoedd,
Am gawl brâg, do, do, om hanfodd.

Dymma 'r peth sy 'n torri 'nghalon,
Wrth dy weld di nawr mor ffinnion,
Orffod * prwfio hyn yn d'erbyn, * Testiolaeth
Ddydd y farn, heb gelu gronyn.

Toſt yw gorfod ar y tâd,
Ddydd y farn heb ddim or gwad,
Deſtiolaethu o led 'Safan,
Yn erbyn bryntni ei blant ei hunan.

Hyn y fydd, a hyn y ddaw,
Oni wellhau 'maes o law,
Er mwyn Chriſt gan hynny gwella,
Rhag i ddial Duw dy ddala.

Gwiſc di lenn, a ſâch am danad,
Iel 3. 12,13 Wyla nes bo'th welu 'n noefad,
Ag na fwyta fwyd na diod,
Nes cael pardwn am dy bechod.

Tre 9. 3 Cûr dy ddwy-fron, tyn dy wallt,
uc: 18. 13 Wyla 'r deigreu dwr, yn hallt,
Peccavi. Cria 'n ddyſal jawn, * Peccavi,
Arglwydd madde 'meiau im mi.

Bwrw ymmaith dy ddiffeithdra,
Twyll, a ffalſtedd, a phyteindra,
Gad dy fedd-dod, ciadd dy fryntni,
P. 16. 17 Mae Duw 'n gweld dy holl ddrygioni.

Mae dy farn wrth ede wenn,
Yn crogi beunydd vwch dy benn,
Mae dy blant a phawb ei reffun,
Yn ei thynnu, ar dy gobin.

Ez. 37. 7, Gwachel bellach, dal dy law,
Dial Duw fel bollt y ddaw,
Rhoi it rybydd prydd ſyddraid,
Oni chymri rybydd, paid.

Achwyn

Achwyn Eglwyſwr.

DUw gwêl drwmmed yw fyng halon,
Weled faint pengaledrwydd dynion,
Caisi harwain tua 'r nefoedd,
Hwyntau ânt ir tan heb ddiffodd.

Golchu 'r * Morys du trwy Sebon,
Troi 'r Jorddonen i ben Hermon,
Yw cynghori 'r dyn pencaled,
'Ofni Duw a charu ei enaid.

* *Black Moor neu ddynion duon.*

Cais trwy deg, a chais trwy Hagar,
Ofer Canu ir neidir fyddar,
Trinia fynech ar bren pwdwr,
Byth ni ry 'ti ffrwyth no Swccwr.

Pſalm 58. 4.

Dyſc a dangos, gwawdd, ymnhedd,
Mâb y foll, ni wella oi fuchedd,
Lladd ar gyfraith, gwawdd ar fengil,
Ni thry attat, ond ei wegil.

Gollwng arno 'r holl Brophwydi,
Ar 'Poſtolion i gynghori,
Nid gwaeth * ffyſto pen wrth ben an,
Ni wna ond y fynne e' hunan.

* *Cure.*

Gwae fyng halon drom gan hynny,
Na buaſſeu Duw 'n ewyllyſſu,
Fy rhoi 'n fugail ar dda gwyllion,
Cin rhoi im' ſhiars y cyfriw ddynion.

Plas neu vr. Y corr y dynn y gwenwyn lyndys,
Or blodeuyn gorau ei * relys,
Ar dyn drwg a dynn ryw accan,
O bur eiriau Duw ei hunan.

Waith i Grift yn prynwr tirion,
Gelli drofſom waed ei galon,
Ai roi 'n bridwerth dros ein pechod,
I: 4 vſ: 6. 1, 2 Fe fynn llawer bechu 'n waſtod.

Waith bod Noe, a Lot yn feddw,
Waith bod Jonas hên, yn chwerw,
ef rhodio fyw yn ei odau hwynt. Fe fyn llawer, * droedio ei beiau,
Heb ddilin yn oi holl rinweddau.

Pob gwas gwych y nawr y feder,
Dyngu a rhegu gida Pheder,
Pam na welai neb yn medru,
: 26. 75 Gida pheder edifaru.

Pawb y ddilin Dafydd Brophwyd,
Mewn godineb, lle gwradwyddwyd,
Ond ni welai neb yn dilin,
Edifeirwch Dafydd frenin.

difara. Vn y ddywaid mi * Repenta,
Fy meiau gid y flwyddyn neſſa,
Beth medd Chriſt, os aiff dy enaid,
: 12. 20 Heno neſſa gan gythreiliaid.

Llall y ddywaid, helwn heddu,
Ni wellhawn ein beiau foru,
Heno lladd y gwr yn feddw,
Duw ble 'r aeth 'difeirwch hwnw.

Yn

Yn olhwn y dywaid y trydydd,
Pet fae fy mai yn fwy nar mynydd,
Mae Duw mawr yn fwy' Drugaredd,
Mi gaf bardwn ar fy niwedd.

Felly waith bod Duw yn raſſol,
Ag yn dirion ir 'difeiriol,
Llawer dyn ſyn pechu 'n Sceler,
Heb wneuthur pris oi gyfiawnder.

Er bod Duw yn llawn trugaredd, *Exod: 34 6*
Yn hwyr ei lid, yn dda ei ammynedd, *Nahum: 1.2*
Etto er hyn mae Chriſt yn dwedyd,
Fod Duw mawr yn gyfiawn heſyd.

Duw ſydd raſſol, Duw ſydd gyfion,
Duw ſydd fwyn, a Duw ſydd ddigllon,
Duw ſydd ddof, a Duw ſydd dan llyd, *Heb: 12, 29*
Duw ſydd hael, a chynnil heſyd.

Mae è'n maddeu 'r mîl talentau, *Mat: 18. 21*
Etto 'n pallu 'r hatling wrthiau, *Hyd y diwe*
Mae 'n rhoi 'r nef yn rhwydd i ryw yn,
Etto ir llall yn pallu 'r droppyn.

Ir rhai ffyddlon edifeiriol, *Eſay 55. 7*
Mae Duw 'n ffyddlon ag ynraſſol, *Ioan: 3. 36*
Ond ir † ſtwbwrn, cas, gwrthnyſtig, *Pſal: 18. 25,*
Mae Duw 'n greulon, ag yn ffyrnig. *Cyulyn.*

O herwydd hyn 'rwi yn cynghori,
Na ddilynet hir ddrygioni,
Ond i bawb tra fyddont byw,
Dreulo ei hoes mewn ofan Duw.

Gwell

u Jana Rice

Gwell Duw na dim.

OS tâd, os mam, os mâb, os merch,
Os tai, os tîr, os gwraig, trwy ſerch,
Y gais dy droi, yn ſraws neu 'n driſt,
Oddiwrth dy gred ath ſerch at Griſt.

:: 14. 26 Gâd dâd i droi, gâd fam i wylo,
:: 9. 59, 60, 62 Gâd wraig i ſcoi, gâd blant i grio,
r. 10, 28, 30 Gâd dai, gâd dir, gâd faeth, gâd fywyd,
Cin gado Chriſt, gâd faint ſydd gennid.
: 10. 39

r: 6. 18 Bydd Chriſt yn dâd, yn fam, yn frawd,
m 18. 2 Yn graig, yn gaer, yn ffrind, yn ffawd,
1. 3 Yn gyfoeth mawr, yn lles, yn llwyddiant,
Yn bob peth i bawb ai carant.

Heb Griſt, heb gred, heb faeth, heb fywyd,
3. 11 Heb ddull, heb ddawn, heb nerth, heb Jechyd,
. 11. 30 Heb * hop, heb help. heb râs, heb rym,
abaith. Heb ddyſc, heb dda, heb Dduw, heb ddim.

Gwell Duw na 'r nef, na dim ſydd ynddi,
.10. 14 Gwell na 'r ddae 'r, na 'r maint ſydd arni,
m 24. 1 Gwell nar bŷd, nai olud in'.
9. 23, 24 Gwell, a dau well Duw na dim.

m 27. 10 Gwell na Thâd, na mam, na mammaeth,
r: 8. 19 Gwell na chyfoeth, na Thifeddiaeth,
Gwell na Mari, gwell na Martha,
m 61. 3 Gwell na dim, yw Duw gorucha.

Os

Os Duw ddewiſaiſt yn dy ran, *Pſalm 73.*
Cae Griſt ith gynnal ym-hob man, 26
Cae 'r Saint ith gylch, cae 'r bŷd ith berthu, *Rhuf 8.31*
Cae 'r nef ith ran, cae 'r fall ith oſni. *Pſalm 91.*
12
1 Cor. 2. 9

Di ddewiſaiſt y rhan benna,
Pan ddewiſaiſt Dduw gor[illegible]ia,
Rhan na ddygir byth odd'arnad, *Luc. 10. 42*
Tra parhaffo 'r haul ar lleuad.

Pan dduo 'r haul, nar wridio 'r lleuad, *Mat. 24. 2.*
Pan Syrthio 'r ſer, pan ofno bagad, *2 Pet. 3. 1*
Pan lloſco 'n boeth, y bŷd ai bwer, *Luc. 21. 2.*
Bydd dy ran di, yn ddi-bryder. *1 Theſ. 4.*

Cwyn dy galon, na fydd wan, *Datc. 3. 3*
Cadw d'afel ar dy ran, *Datc. 2. 10*
Di ddewiſaiſt y rhan orau, *Mar. 13. 1*
Gwachel newid hed at angau.

Y Llyfr rhagoroll hwnnw a ſû fuddiol iawn yn ſaeſnog (ſef) Y Cywir Ddychwelwr: yn datcuddio y nifer bychan or rhai gwir Gredadwy, ar anhawſtra mawr o droedigaeth Cadwedigol.

A werthir gan *Tho. Brewſter*, tan lûn y tri Bibl yn ymmyl Pauls. 1659.

David Jones's Book

1782 Oct

Darllenydd, fel y bo i ti yn hawdd gaffel allan dim ag sydd gynwysedig, yn y llyfyr hwn, craffa ar yr amryw titlau, ag ar rhif, neu nod y dalenau, fel y canlynant.

Addysc a chynghorau ynghylch gwrando pregethau yr Efengil, ag ynghylch chwilio 'r Scrythurau. Dal 1

Rhybydd ir Cymru i edifaru. dal. 14

Yr ail ran. dal. 18

Christ syd oll yn oll. dal. 21

Christ sydd oll yn oll. dal. 27

Cyngor i bechadur. dal. 32

Cynghorion yn erbyn profedigaethau Satan. 41

Rhybyddi wachelyd Rhwydau Satan, Ymhob Oedran. dal. 44

Cynghor i ddyfal weddio ar bob achos ag ymhob gorchwyl. dal. 45

Y moâd y dylae ddyn dnwiol ddeffroi ei gorph ai enaid genol nos i glodfori Duw. dal. 50

Cyngor i foliannu Duw y bore. dal. 52

Gweddi wrth wisco dy ddillad. dal. 54

Gweddi fach wrth ymolchi. dal. 55

Diolch am Dan a chynnessrwydd. dal. 55

Cynghorion ynghilch ceisio bendith ar y bwyd, cyn bwyta, ag ynghilch talu diolch i Dduw ar ol bwyta. dal. 56

Gras

Susan Price
his Book 17

Gras cyn bwyd. dal. 50
Cyngor i edrech attom yn hunain wrth fwyta. dal. 60
Gras yn ol bwyd. dal. 60
Cynghorion i fyw yn ddeadfol. dal. 61
Cyngor yn rhybuddio dyn i ymgadw, rhag lletena meddyliau drwg yn ei galon, ag i droi ei feddyliau bob amſer, i feſyrio ar ddaioni. dal. 69
Dyled-ſwydd plant i rhieni. dal. 76
Cyngor i lywodraethu'r ymadrodd wrth fodd Duw. dal. 80
Gweddi am lywodraethu'r geirian, ar grne wrth fodd Duw. dal. 83
Cyngor i ddyn fodbob amſer o ymddwgiad Chriſtnogaidd. dal. 84
Paratoad ir cymmun. dal. 88
Gweddi cyn derbyn y cymmun. dal. 97
Cyngor i bob bentaulu i lywodrauthu ei dy yn dduwiol. dal. 98
Am ddiwedd y byd. dal. 112
Coſiwch Angau. dal. 120
Cyngor Diſes. dal. 129
Atteb i Gweſtiwn ynghylch gweddio dros y marw: ble dangoſir anghyfreithlondeb gweddio dros y cyfriw. dal. 145
Achwyn Mr. Prichard ynghilch tre llanddyfri, ai Rybydd ai gyngor efiddi. dal. 145
Achwyn Eglwyſwr. dal. 153
Gwell Duw na dim. dal. 156

Susan Price
His Book Susan

Att y Darlleydd.

Y Cymro Anwyl,

DYmma yr ail waith y printiwyd y llyfr hwn, ag er mwyn it tia phawb oth gydwladwyr ddeall yn eglurach, a ddarllain yn hyfforddach y gân yma, fe gymerwyd peth poen i ddiwygio rhai beiau, ag i amlygu rhai geiriau, ynghwy y ddalen, or vn lleiaf; fel i b, ddeu im Cymydogion anwyl yngwynedd gyfrannu yn helaethach or wybodaeth leshol, sydd iw chael yn y llyfran yma. Am hynny cymmer gynghor ag annogaeth i ddarllain y gerdd odidog yma, a derbyn hi megys Annerch oddiwrth Dduw, Megys lleferydd Mr: Prichard (yr Awdwr) or bedd, ag megys blaenffrwyth goleuni Duw yughymru yn yr oes a bassiodd. Ag fel i Caffech fywyd a lleshâd ith Enaid oddiwrth ddarllenni add y llyfr hwn; Ystyria y tri pheth yma ith gyfarwyddo. Yn gyntaf, Cais gymwyso, birchennogi, a chyfaddasu yr hyn a ddarllennych yuddo ith enaid ath gyflwr nailldual dy hûn; Yn ail, Gochel rhag ei drefni ad y gwirioneddau yma mewn dull Canghanedd ysgafnhau dy galon di wrth eu darllain, a chyftol dy wniau ffolion di, Mae llawer or ysbryd ehud hwnnw, ar Coeg ddigrifwch yn rheoli ymysg y Cymru hydy dydd heddiw; Eithr cais di gan Dduw lwyr dorri a marwhau dy galon di oddiwrth y Cyfriw oferedd a phleser darfodedig, ag ystyria di y gwirionedd ar gwersi, nid y gân, a hynny yn ddwys, yn ddifrisol, ag mewn sobrwydd ysbryd: Yn drydydd, Gosod y llyfran yma, a phob modd arall a ordeiniodd Duw i Jechawdwriaeth, yughyd ath galon wrth draed yr Arglwydd a gweddi yn daer ar iddo roddi bendith ar y moddion ag ar dy galon; feli bo itti i fwyn hau ef yn a thrwy ei . . foddion grasusol: Hyn a sgrifennwyd ar ddeisyfiad, ag fel i bo itti gyflawni hyn dig ei ysgwydd wann syngweddi i yn ychwaneg, a hynny o wîr fodd Calon yr hwn, wyf,

30 Tachwedd. 1658.

Eiddoti yn yr Arglwydd. H. M.

Mae rhan arall o waith yr vn Awdwr, yn dyfod tan y printwasg ar fyrder, ag ni bydd hir, hyd oni ddelo y rhan honno ar led hefyd iw chael ar werth; heb law amriw lyfrau eralli yn gymraeg, os Duw a ganiatta.

Printiedig yn Llundain, aga werthir gan *Thomas Brewster*, [illegible] y tri Bibl yn ymmyl Pauls. 1659.

Att y Darlleydd.

Y Cymro Anwyl,

DYmma yr ail waith y printiwyd y llyfr hwn, ag er mwyn itti a phawb oth gydwladwyr ddeall yn eglurach, a ddarllain yn hyfforddach y gân yma, fe gymerwyd peth poen i ddiwygio rhai beiau, ag i amlygu rhai geiriau, ynghwr y ddalen, or vn lleiaf; fel i b.ddeu im Cymydogion anwyl yngwynedd gyfrannu yn helaethach or wybodaeth leshol, sydd iw chael yn y llyfran yma. Am hynny cymmer gynghor ag annogaeth i ddarllain y gerdd odidog yma, a derbyn hi megys Annerch oddiwrth Ddaw, Megys lleferydd Mr: Prichard (yr Awdwr) or bedd, ag megys blaenffrwyth goleuni Duw ynghymru yn yr oes a bassiodd. Ag fel i Caffech fywyd a lleshâd ith Enaid oddiwrth ddarllenniadd y llyfr hwn; Ystyria y tri pheth yma ith gyfarwyddo. Yn gyntaf, Cais gymwyso, b rchennogi, a chyfaddasu yr hyn a ddarllennych ynddo ith enaid ath gyflwr naillduol dy hûn; Yn ail, Gochel rhag ei drefni ad y gwirioneddau yma mewn dull Canghanedd ysgafnhau dy galon di wrth eu darllain, a chyfroi dy wniau ffolion di, Mae llawer ôr ysbryd chud hwnnw, ar Coeg ddigrifwch yn rheoli ymysgy Cymru hydy dydd heddiw. Eithr cais di gan Dduw lwyr dorri a marwhau dy galon di oddiwrth y Cyfriw ofredd a phleser darfodedig, ag ystyria di y gwirionedd ar gwersi, nid y gân, a hynny yn ddwys, yn ddifrisol, ag mewn sobrwydd ysbryd: Yn drydydd, Gosod y llyfran yma, a phob modd arall a ordeiniodd Duw i Jechawdwr aeth, ynghyd ath galon wrth draed yr Arglwydd a gweddi yn daer ar iddo roddi bendith ar y moddion ag ar dy galon; feli bo itti i fwyn hau ef yn a thrwy ei ... foddion grasusol: Hyn a sgrifennwyd ar ddeisyfiad, ag fel i bo itti gyflawni hyn dig ei ysgwydd wann syngweddi i yn ychwaneg, a hynny o wîr sodd Calon yr hwn, wyf,

30 Tachwedd. 1658.

Eiddoti yn yr Arglwydd. H. M.

Mae rhan arall o waith yr vn Awdwr, yn dyfod tan y printwasg ar fyrder, ag ni bydd hir, hyd oni ddelo y rhan honno ar led hefyd iw chael ar werth; heb law amriw lyfrau craill yn gymraeg, os Duw a ganiatta.

Printiedig yn Llundain, aga werthir gan *Thomas Brewster*, tan lûn y tri Bibl yn ymmyl Pauls. 1659.